

Diogelu Cymhleth Cymru

Pecyn cymorth ynglŷn â chamfanteisio'n
droseddol ar blant



Nina Maxwell, Jon Ablitt, Bethan Davies, Marie
Hopkinson a Phil Smith

Gorffennaf 2022

Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Adran un: Diffiniadau ac arfer da.....	5
Mathau ar gamfanteisio	6
Adnabod camfanteisio troseddol ar blant.....	10
Gwaith amlasiantaethol.....	17
Gweithio gyda phobl ifanc	26
Gweithio gyda theuluoedd.....	35
Adran dau: Gwybodaeth sy'n benodol i'r sector.....	37
Gwasanaethau Plant.....	38
Gwasanaethau Plant: canllawiau polisi ac ymarfer	40
Addysg.....	42
Addysg: Canllawiau polisi ac ymarfer.....	47
Gwasanaethau leuenctid.....	52
Gwaith ieuenctid: canllawiau polisi ac ymarfer.....	56
Iechyd.....	58
Iechyd: Canllawiau Polisi ac Ymarfer	63
Tai	64
Tai: Canllawiau polisi ac ymarfer	68
Yr Heddlu	72
Gwasanaeth Cyfiawnder leuenctid	75
Cyfiawnder leuenctid: Canllawiau polisi ac ymarfer	78
Casgliad	87
Cyfeirnodau	88
Atodiad A: Diogelu Cymhleth	98
Atodiad B: Yr iaith a ddefnyddir.....	101

Ffigurau

Ffigur 1: Modelau o gamfanteisio troseddol	8
Ffigur 2: '8' ffactor risg lefel unigol	12
Ffigur 3: Egwyddorion gweithio amlasiantaeth effeithiol	18
Ffigur 4: Y broses NRM.....	23
Ffigur 5: Siarter leuenctid.....	28
Ffigur 6: Ymatebion yr heddlu a gwasanaethau plant i gyfnodau ar goll.....	33
Ffigur 7: Atgyfeiriadau a chanlyniadau'r Gwasanaethau Plant	41
Ffigur 8: Arwyddion rhybuddio ar gyfer ymarferwyr iechyd.....	60
Ffigur 9: Cynllun Cyfiawnder leuenctid Cymru	80
Ffigur 10: Beio dioddefwyr yntau iaith sy'n seiliedig ar gryfderau	101

Cyflwyniad

Cafodd y pecyn cymorth hwn ei ddatblygu fel rhan o astudiaeth a ariannwyd gan Ymchwil Gofal Iechyd Cymru i gamfanteisio troseddol ar blant yng Nghymru. Edrychodd yr astudiaeth ar sut roedd pobl ifanc yn cael eu targedu, eu meithrin a chamfanteisio'n droseddol arnynt yng Nghymru a'r hyn y mae angen i wasanaethau ei wneud i adnabod pobl ifanc y mae perygl y camfanteisir yn droseddol arnynt, ymgysylltu â nhw a'u diogelu. I wneud hyn, gofynnwyd i bobl ifanc, i rieni ac i ymarferwyr â phrofiad uniongyrchol am eu profiadau o gamfanteisio troseddol a pha dulliau ac ymyriadau oedd fwyaf defnyddiol. Defnyddiwyd y canlyniadau i gynhyrchu'r pecyn cymorth hwn ar y cyd. Seiliwyd y cynhyrchu ar y cyd ar egwyddorion ymchwil i weithgaredd ac roedd yn golygu cynnwys y grŵp ymgynghorol ar ymchwil mewn ymchwiliad oedd yn seiliedig ar astudiaeth oedd yn 'canolbwyntio ar broblemau, yn benodol i gyd-destun ac yn edrych tua'r dyfodol' (Waterman et al, 2001:4) (gweler Maxwell a Wallace, 2021). Roedd y grŵp ymchwil yn cynnwys pobl ifanc a rhieni oedd â phrofiad byw o gamfanteisio troseddol ar blant ac ymarferwyr. At hynny, gwahoddwyd arbenigwyr yn y sector ac arweinwyr ar ddiogelu i roi sylwadau ar adrannau perthnasol. Cafodd y pecyn cymorth ei fireinio ar sail adborth gan ymchwilwyr ac ymarferwyr cymheiriad ieuencid. Mae'r pecyn cymorth yn defnyddio'r term 'pobl ifanc' i gyfeirio at bob plentyn a pherson ifanc hyd at 25 oed

Nodau

Nod y pecyn cymorth yw gwella ymatebion ymarferwyr i gamfanteisio'n droseddol ar blant. Fe'i datblygwyd gan gyfeirio at ganfyddiadau astudiaethau, y llenyddiaeth ymchwil ehangach ac yn unol â chanllawiau polisi ac ymarfer presennol. Nid yw'n disodli'r canllawiau ymarfer presennol.

Yn benodol, mae'r pecyn cymorth yn darparu negeseuon allweddol ynghylch y canlynol:

- Amlygiadau gwahanol ar gamfanteisio'n droseddol ar blant yng Nghymru
- Prif arwyddion rhybuddio a ffactorau risg
- Dulliau amlasiantaeth effeithiol.
- Gweithio gyda phobl ifanc a rhieni
- Arwyddion rhybuddio, rolau a chyfrifoldebau sector-benodol.

Mae'r adroddiad wedi'i rannu'n ddwy adran. Mae adran un yn dechrau drwy gyflwyno diffiniadau o gamfanteisio'n droseddol ar blant, yr arwyddion rhybuddio ac arfer da ar gyfer gweithio amlasiantaethol a gweithio gyda phobl ifanc a rhieni. Mae adran dau yn darparu gwybodaeth sector-benodol ynghylch cyfrifoldebau diogelu, arwyddion rhybuddio, a throsolwg o bolisi ac arfer perthnasol. Mae Adnodd Asesu Camfanteisio'n Droseddol ar Blant hefyd wedi'i ddatblygu i arwain penderfyniadau ymarferwyr (gweler dogfen ar wahân).

Egwyddorion

Mae'r pecyn cymorth asesu'n ategu'r dirwedd polisi a chanllawiau ymarfer yng Nghymru. Mae'n seiliedig ar angen sylfaenol i fabwysiadu ymagwedd sy'n canolbwyntio ar blant ac ar hawliau

plant. Mae'n rhaid gwranddo ar bobl ifanc a'u cynnwys wrth wneud penderfyniadau Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried bod camfanteisio yn cymryd rheolaeth oddi wrth y person ifanc. Mae'n rhaid i ymarferwyr beidio â gwneud yr un fath. Dylent ddiogelu a pheidio â throeddoli'r bobl ifanc hyn a dylent eu helpu a'u cefnogi i gymryd rheolaeth dros eu bywydau ac i gyflawni eu potensial llawn. Mae hyn yn golygu gweithio gyda phobl ifanc, sefydlu trafodaeth gyfeillgar, datblygu ymddiriedaeth a meithrin perthnasoedd y mae pobl ifanc yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu rhannu eu barn ynddynt. Mae'r pecyn cymorth yn mabwysiadu'r egwyddorion canlynol:

- Dull diogelu sy'n rhoi'r plentyn yn gyntaf
- Mae'n canolbwyntio ar y plentyn fel bod anghenion y person ifanc yn cael eu nodi yn cael sylw.
- Mae'n cael ei gyflwyno yn y gymuned i bobl ifanc a'u teuluoedd.
- Wedi'i anelu at atal, ymyrraeth gynnar, a dargyfeirio.
- Gallu cynnwys rhieni fel adnodd yn hytrach na fel risg.
- Yn cynnwys adnabod, unigolion neu grwpiau sy'n camfanteisio ar bobl ifanc, ymchwilio iddynt a'u herlyn.

Wrth wneud hynny, mae'r pecyn cymorth yn defnyddio dulliau Diogelu Pontio a Diogelu Cyd-destunol. Mae Atodiad A yn rhoi crynodeb o bob dull gweithredu: Diogelu Cymhleth, Diogelu Pontio a Diogelu Cyd-destunol.

Siarter Ieuentid

Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys Siarter Ieuentid sydd wedi'i chynhyrchu ar y cyd â phobl ifanc (gweler Gweithio gyda Phobl Ifanc). Mae'n cynnwys pedwar datganiad ar bymtheg ynghylch sut mae pobl ifanc eisiau i ymarferwyr a rhieni ymgysylltu â nhw (Ffigur 5). Yn sail i'r siarter y mae parch cadarnhaol diamod sy'n cyfeirio at dderbyn, deall a pharchu pobl ifanc am bwy ydynt.

Yr iaith a ddefnyddir

Math o gamfanteisio'n droseddol ar blant yn ffurf ar gam-drin plant (Gweithdrefnau Diogelu Cymru, 2019a). Ni all pobl ifanc gydsynio i gael eu masnachu, nid ydynt ar fai nac yn gyfrifol am fod rhai'n camfanteisio'n droseddol arnynt. Mae'r pecyn cymorth yn hyrwyddo'r defnydd o iaith niwtral a thermau nad ydynt yn rhoi bai ar bobl ifanc yn benodol nac yn awgrymu hynny. Mae rhagor o wybodaeth am yr iaith a'r derminoleg a ddefnyddir i'w gael yn Atodiad B.

Adran un: Diffiniadau ac arfer da

Gan ddefnyddio canfyddiadau astudiaethau ymchwil a ariannwyd gan Ymchwil Gofal Iechyd Cymru, mae adran un yn crynhoi'r mathau ar gamfanteisio'n droseddol ar blant a'r mathau ohono ac yn amlinellu ffactorau risg ar y lefelau unigol, ryngbersonol a chymunedol. Yna mae adran un yn cyflwyno arferion da o ran gweithio aml-asiantaeth, a gweithio gyda phobl ifanc a rhieni.

Mae adran dau o'r adroddiad yn darparu gwybodaeth fanwl ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau Gwasanaethau Plant, Addysg, Iechyd, Tai, Yr Heddlu, Cyfiawnder Ieuenctid, a Gwasanaethau Ieuenctid. Mae pob is-adran yn gorffen gyda throsolwg o'r canllawiau polisi ac ymarfer perthnasol.

Mathau ar gamfanteisio

Gall amrywiaeth y troseddwy a'r ffordd y mae pobl ifanc yn cael eu paratoi ei wneud yn anodd adnabod camfanteisio. Mae hyn yn fwy cymhleth gan y gellir camfanteisio ar unrhyw berson ifanc, beth bynnag fo'i oedran, ei ryw, ei ethnigrwydd, gallant fod yn cyflwyno bregusrwyddau neu wedi ymwneud o'r blaen gyda gwasanaethau.

Er ei bod yn fwy tebygol y bydd pobl yn camfanteisio'n droseddol ar bobl ifanc sy'n agored i niwed, cafwyd symudiad tuag at edrych ar y bobl ifanc y mae gwasanaethau'n galw'n 'blant disylw'. Mae'r grŵp hwn yn ddeniadol i gamfanteiswyr gan eu bod yn llai tebygol o gael eu sylwi. Mae hefyd yn anodd adnabod camfanteisio gan ei fod yn bosibl y bydd ffurfiau gwahanol ar gamfanteisio ddigwydd, a/neu mae'n bosibl y caiff pobl ifanc eu symud o un ffurf ar gamfanteisio i ffurf arall. Mae'n bwysig bod pobl ifanc yn derbyn y gefnogaeth fwyaf priodol am y gamdriniaeth y maent wedi dioddef ohoni.

Camfanteisio'n droseddol ar blant

Diffinnir camfanteisio'n droseddol ar blant fel:

"...where an individual or group takes advantage of an imbalance of power to coerce, control, manipulate or deceive a child or young person under the age of 18 into any criminal activity (a) in exchange for something the victim needs or wants, and/or (b) for the financial or other advantage of the perpetrator or facilitator and/or (c) through violence or the threat of violence. The victim may have been criminally exploited even if the activity appears consensual."
(Y Swyddfa Gartref, 2018)

Mae elfen o gyfnewid ymhyg â chamfanteisio'n droseddol

Gall cysyniad cyfnewid fod yn gamarweiniol gan nad yw bob amser yn cynnwys trosglwyddo rhywbeth diriaethol (Cymdeithas Plant, 2019) Yn hytrach, gall cynnwys cyfnewid rhywbeth:

- Diriaethol fel esgidiau hyfforddi, nwyddau brand, addo 'arian hawdd'
- Anniriaethol fel teimladau diogelwch, fod yn perthyn i 'deulu' ehangach gang, hunaniaeth neu statws.
- Atal trais, er enghraifft trais yn erbyn aelod o'r teulu.

Mae camfanteisio ar blant yn cynnwys gweithgaredd troseddol

Mae'n bosibl y bydd y person ifanc yn cael ei ddefnyddio am ystod o weithgareddau, fel gwerthu a chludo cyffuriau, lladrata, byrgleriaeth neu gael ei orfodi i agor cyfrif banc er mwyn gwyngalchu arian. Mae camfanteisio ar blant yn cynnwys pobl ifanc o wledydd eraill sydd wedi cael eu masnachu i Brydain a'u gorfodi i weithio neu i gaethiwed domestig neu bobl ifanc sy'n cael eu masnachu o un ardal o Gymru i ardal arall. Mae'n bosibl y bydd pobl ifanc yn cael eu masnachu dim ond ychydig o strydoedd i ffwrdd o'u cartref.

Gall trais neu fygwth trais fod yn rhan o gamfanteisio'n droseddol ar blant

Gall pobl ifanc ddiodeff trais a/neu gael eu gorfodi, eu persawadio, neu eu cymell i ddefnyddio trais yn erbyn pobl eraill. Mae'n bosibl y bydd gormod o ofn ar bobl ifanc i ofyn am help oherwydd eu bod yn ofni ymateb y camfanteiswyr, iddynt eu hunain ac i aelodau o'u teuluoedd.

Llinellau cyffuriau

Diffinnir llinellau cyffuriau fel:

“gangs and organised criminal networks involved in exporting illegal drugs into one or more importing areas within the UK, using dedicated mobile phone lines or other forms of “deal line”. They are likely to exploit children and vulnerable adults to move and store the drugs and money and they will often use coercion, intimidation, violence (including sexual violence) and weapons.”

(Asiantaeth Troseddu Genedlaethol, 2019)

Mae llinellau cyffuriau yn derm a ddefnyddir gan yr heddlu. Fe'i defnyddir i ddisgrifio un fodel ar ddsbarthu cyffuriau lle mae cyffuriau'n cael eu gwerthu trwy ddefnyddio rhif ffôn symudol brand, er enghraifft, 'Llinell y Barri'. Rhoddir ffôn llosgwr i bobl ifanc er mwyn dweud wrthynt ble i fynd â chyffuriau a'u gwerthu. Gall hyn amrywio o ddinas i drefi llai neu o un pen ardal i ben arall. Felly, mae'n bosibl y camfanteisir yn droseddol ar bobl ifanc i'w gwneud yn rhan o weithgareddau llinellau cyff a gallant gael eu masnachu ar draws Cymru neu o Loegr i Gymru.

Mae'r term 'llinellau sirol' yn mynd â'r sylw i ffwrdd o'r amrywiaeth o droseddwyr, i ffwrdd o ystod y troseddoldeb y caiff pobl ifanc eu gorfodi, eu perswadio neu eu cymell i'w wneud, ac i ffwrdd o'r gamdriniaeth gorfforol a rhywiol y maent yn ei diodeff. Mae'n rhaid i ymarferwyr fabwysiadu diffiniad eang o gamfanteisio troseddol ar blant sy'n cynnwys aelodau o'r teulu, ffrindiau neu bobl nad ydynt yn eu hadnabod yn eu cymell i ymwneud â throseddoldeb. Nid oes gan bobl ifanc ddewis. Maent wedi 'u dala o fewn perthnasoedd camfanteisiol trwy fygythiadau neu drwy drais go iawn.

Modelau o Gamfanteisio Troseddol ar Blant

Ceir tri phrif fodel o gamfanteisio troseddol ar blant yng Nghymru (Ffigur 1). Er bod modelau gwahanol o ddsbarthu a chyflenwi cyffuriau, bydd gan rai ardaloedd elfennau ohonynt i gyd.

Figur 1: Modelau o gamfanteisio troseddol



Masnachu plant a chaethwasiaeth fodern

Diffinnir caethwasiaeth fodern fel:

“Modern slavery encompasses slavery, servitude, forced and compulsory labour and human trafficking. Traffickers and slave drivers coerce, deceive and force individuals against their will into a life of abuse, servitude and inhumane treatment”

(Swyddfa Gartref, 2019)

Mae caethwasiaeth fodern yn cyfeirio at gymell neu gorfodi pobl ifanc neu camfanteisio'n droseddol arnynt, a'u cymryd, eu trosglwyddo, eu llochesu neu eu derbyn drwy ddefnyddio grym, cymhelliad, camarwain, anghydbwysedd grym neu fygythiadau at bwrpas. Gall cysyniad 'pwrpas' gynnwys camfanteisio troseddol, ariannol a/neu rywiol, llafur gan orfodaeth, caethwasiaeth, caethwasiaeth domestig, lladrata o siopau neu dwyll. Ni all pobl ifanc roi cydsyniad gwybodaeth i gymryd rhan mewn troseddoldeb dan orfodaeth neu i gael eu camdrin neu i gael eu masnachu (Swyddfa Gartref, 2015). O dan Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015, ystyrir bod pobl ifanc yn cael eu masnachu at bwrpas camfanteisio hyd yn oed os nad yw'r camfanteisio hwnnw wedi digwydd eto. Felly, ystyrir bod pobl ifanc wedi cael eu masnachu hyd yn oed pan fydd ymarferwyr wedi ymyrryd cyn i'r camfanteisio ddigwydd.

Mae masnachu plant ar gynnydd yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2019). Mae hyn yn cynnwys plant ar eu pennau eu hunain a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol. Efallai na fydd pobl ifanc yn cael eu symud yn gorfforol (eu 'masnachu') ar gyfer camfanteisio troseddol, ond gallant ddal i ddiodeff caethwasiaeth fodern os ydynt wedi cael eu gorfodi i mewn i gaethwasiaeth, gwasanaeth neu lafur gorfodol. Gall caethwasiaeth fodern ddigwydd yn uniongyrchol drwy berthnasoedd, gan gynnwys perthnasau neu berthnasoedd rhamantus neu'n anuniongyrchol, lle mae pobl sy'n adnabod y person ifanc yn cau eu llygaid pan fydd pobl yn ifanc yn cael eu niweidio neu maent yn methu â dweud bod y person ifanc yn cael ei niweidio.

Adnabod camfanteisio troseddol ar blant

Awgrymodd ein canfyddiadau nad oedd rhestrau gwirio yn ddefnyddiol ar gyfer nodi camfanteisio'n droseddol ar blant am ddau brif reswm: gellir camfanteisio ar unrhyw berson ifanc, ac mae camfanteisio yn gudd. Efallai bod pobl ifanc wedi dod yn fwy agored i gamfanteisio'n droseddol ar blant oherwydd un digwyddiad neu gyfuniad o ddigwyddiadau fel rhieni'n camddefnyddio alcohol neu gyffuriau, rhianta gwael, hunan-barch isel, a byw mewn tldi. Mae'n rhaid i ymarferwyr ystyried y gallai bregusrwyddau lluosog ar draws lefelau unigol, teuluol a chymunedol gynyddu risg i berson ifanc. Felly, mae offeryn cofnodi asesiad risg camfanteisio'n droseddol ar blant wedi'i ddatblygu (gweler y wybodaeth atodol). Fodd bynnag, ni fydd unrhyw un gweithiwr proffesiynol yn cadw'r holl wybodaeth angenrheidiol i gynorthwyo adnabod a diogelu. Mae hyn yn gwneud rhannu gwybodaeth amlasiantaethol a gwaith cydweithredol yn hanfodol wrth adnabod ac amddiffyn pobl ifanc.

Meithrin Perthynas Amhriodol

Mae'r rhai sy'n camfanteisio ar bobl ifanc yn meithrin perthynas amhriodol â nhw gan ddefnyddio ystod o ddulliau gwahanol. Gall hyn gynnwys peintio darlun hudolus o'r ffordd o fyw, bod yn gyfaill i'r rhai sy'n unig, yn ynysig neu'n ei chael hi'n anodd ffitio i mewn, cynnig statws, amddiffyniad iddynt neu eu bygwth â thrais:

“Felly, mae plant ifanc bob amser yn edrych arnynt [y rhai sy'n camfanteisio arnynt] fel rhai i'w hedmygu . Gyda rhai ohonynt, maent hyd yn oed yn rhoi rhywfaint o arian i'r bobl ifanc, ychydig o newid. Felly pan fyddant yn tyfu i fyny – mae ganddynt y parch a'r cariad yma at yr unigolyn hwnnw. Gallai fod cyn lleied â phunt, dwy bunt neu bum punt neu ddeg punt”
(Cyfweliad â pherson ifanc)

Gall pobl ifanc gael eu gorfodi, eu cymell, neu eu twyllo i gamfanteisio ar blant eraill yn droseddol neu eu nodi a/neu eu cyflwyno i bobl sy'n camfanteisio. Mae hyn yn gwneud y gwahaniaeth rhwng dioddefwr a chyflawnwr yn aneglur. Rhaid i ymarferwyr fabwysiadu dull â mwy o arlliw, sy'n rhoi'r plentyn yn gyntaf, a'r troseddwr yn ail, lle y gall pobl ifanc fod yn ddioddefwyr y camfanteisur arnynt yn hytrach na chyflawnwyr (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2019:5).

Gall pobl ifanc hefyd gael eu paratoi a'u dal mewn perthynas gamfanteisiol oherwydd 'caethiwed dyled'. Mae'r dacteg hon yn cynnwys:

- Rhoi cyffuriau am ddim i bobl ifanc ond yna mynnu taliad gyda thaliadau llog uchel. Mae pobl ifanc yn cael eu gorfodi i weithio i dalu'r ddyled.
- Mae camfanteiswyr yn trefnu i bobl ifanc gael eu 'mygio'. Yna maent yn mynnu bod y person ifanc yn gweithio i dalu'r arian y maent wedi'i golli.


Mae hyn yn rhoi'r cyfrifoldeb ar ymarferwyr i fod yn 'chwilfrydig' am y person ifanc a'r rhesymau sylfaenol dros eu hymddygiad, fel mynd ar goll, aros allan yn hwyr neu pam fod ganddynt ychydig o ffonau symudol gwahanol. Bydd llawer o bobl ifanc yn gyndyn neu'n amharod i ofyn am help neu i ddatgelu camfanteisio. Gall hyn fod oherwydd y diwylliant ymhlith pobl ifanc i beidio â dweud neu gario clecs. Mae rhai camfanteiswyr yn atgyfnerthu hyn trwy fgythiadau trais tuag

atynt a/neu eu teuluoedd. Gall hefyd fod am resymau eraill, gan gynnwys gwadu neu anwybodaeth am eu camfanteisio, efallai eu bod wedi cael eu dysgu i beidio ag ymddiried yn yr heddlu neu weithwyr proffesiynol eraill, cael profiadau negyddol blaenorol gydag ymarferwyr, neu efallai eu bod yn ofnus ynghylch yr hyn y bydd y rhai sy'n camfanteisio yn ei wneud iddynt neu i'w teuluoedd os ydynt yn cario clecs.

Ffactorau risg lefel unigol

Gellir camfanteisio'n droseddol ar unrhyw berson ifanc o unrhyw oedran, rhyw, ethnigrwydd neu gefndir. Mae camfanteiswyr yn targedu pobl ifanc sy'n agored i niwed oherwydd eu hanghenion sydd heb eu diwallu neu oherwydd eu ddiffyg cyfalaf cymdeithasol a chynhwysiant cymdeithasol. Mae Ffigur 2 yn rhoi crynodeb o'r prif ffactorau risg lefel unigol.

Ffigur 2: '8' ffactor risg lefel unigol



Cyfnodau o fynd ar goll

Yn ôl rhieni, mynd ar goll oedd y dangosydd mwyaf o gamfanteisio troseddol ar blant (Maxwell a Wallace, 2021). Mae hyn yn cefnogi canfyddiadau ymchwil ehangach am y cysylltiad rhwng cyfnod o fynd ar goll a chamfanteisio troseddol ar blant (Bonning a Cleaver, 2020, Wigmore, 2018, Sturrock a Holmes, 2015). Er bod rhieni'n ymwybodol bod eu plentyn yn ymddwyn yn wahanol, ac yn ymddieithrio rhag y teulu a'r ysgol, mynd ar goll oedd yr arwydd gweladwy cyntaf

bod rhywbeth yn digwydd i'w plentyn. Gall cyfnodau o fod ar goll awgrymu bod camfanteisio troseddol ar gynnydd:

Ac yna cyrhaeddodd y pwynt lle'r oedd fel, roedd allan am y diwrnod cyfan ac yn ôl yn oriau mân y bore, ac unwaith eto allwn i ddim weithio allan beth oedd yn ei wneud
(Cyfweliad â rhiant)

Mae dros 10,000 o achosion o blant a phobl ifanc sydd ar goll yn cael eu hadrodd bob blwyddyn yng Nghymru (Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol, 2020). Mae pobl ifanc yn mynd ar goll neu'n rhedeg i ffwrdd am amrywiaeth o resymau. Mae hyn yn cynnwys rhedeg i ffwrdd o broblem neu ddigwyddiad neu redeg i le maent eisiau bod, neu gallant gael eu gorfodi, neu eu twyllo gan unigolyn neu grŵp i adael eu cartref (Y Swyddfa Gartref, 2014). Mae rhai pobl ifanc yn fwy tebygol o fynd ar goll nag eraill, mae hyn yn cynnwys:

- Pobl ifanc mewn cartrefi gofal preswyl
- Pobl ifanc sy'n cael eu lleoli mewn gofal preswyl y tu allan i'r ardal.
- Plant a Phobl Ifanc ar eu Pennau eu Hunain sy'n Ceisio Lloches

Efallai y bydd pobl ifanc yn teimlo bod yn rhaid iddynt ddiplannu i oroesi ac osgoi niwed i'w hunain a'u teuluoedd. Mae'r rhai sy'n camfanteisio yn fedrus wrth guddio ymatebion gwasanaeth oherwydd eu gwybodaeth fanwl am drothwyon a phrosesau'r gwasanaeth.

Ni ddylid trin mynd ar goll yn annibynnol ar fathau eraill o risg ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc. Mae canllaw ymarfer Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar gyfer pobl ifanc sy'n mynd ar goll o'r cartref neu ofal (2019b) yn nodi y dylai pobl ifanc gael cynnig Cyfweliad Dychwelyd Adref, ond nid yw hyn yn ofniad statudol. O ganlyniad, mae camfanteiswyr yn dechrau targedu pobl ifanc nad yw'r gwasanaethau yn gwybod amdanynt gan fod hyn yn lleihau'r tebygolrwydd y byddant yn cael eu gwahodd i gyfweliad dychwelyd adref. Felly, dylid cynnal cyfweliad dychwelyd pan amheuir camfanteisio troseddol a/neu pan fydd y person ifanc yn cael cyfnodau aml o fynd ar goll i benderfynu ble mae'r person ifanc wedi bod, gyda phwy y mae wedi bod a beth mae wedi bod yn ei wneud.

Dylid cynnal cyfweliadau dychwelyd adref o fewn 72 awr ar ôl dod o hyd i'r person ifanc. Mae gan bobl ifanc yr hawl i gyfweliad dychwelyd adref sy'n cael ei arwain gan rywun sy'n annibynnol ar eu rhiant neu ofalwr. Dylai ymarferwyr ystyried pwy sydd yn y sefyllfa orau i ymgymryd â'r cyfweliad dychwelyd yn seiliedig ar ddymuniadau'r person ifanc a pha ymarferydd sy'n gallu sefydlu trafodaeth gyfeillgar â'r person ifanc. Gall pobl ifanc fod yn wylidwrus o siarad â'r heddlu oherwydd ofn cael eu harestio neu ôl-ffeithiau. Fodd bynnag, ni ddylai ymarferwyr gymryd yn ganiataol y bydd pobl ifanc yn aros yn dawel neu'n gwrthod rhannu gwybodaeth. Rhaid i ymarferwyr greu amgylchedd diogel, cynnal tryloywder ynghylch eu rôl a'u cyfrifoldebau a sicrhau bod y person ifanc yn deall pam mae'r cyfweliad dychwelyd yn cael ei gynnal a'i ddibenion diogelu. Mae hyn yn cynnwys bod yn sensitif i'r risgiau posibl i'r person ifanc o'r rhai sy'n camfanteisio.

Ffactorau teuluol

Er bod ymchwil wedi dangos bod teuluoedd cefnogol yn ffactor amddiffynnol i bobl ifanc, gellir camfanteisio'n droseddol ar unrhyw blentyn waeth beth fo'i gefndir teuluol. Mae camfanteisio'n droseddol ar blant yn mynd y tu hwnt i'r hyn y gall teulu ei gynnal ei hun; mae rhieni'n aml yn mynd yn ddiodefwr eilaidd. Rhaid i ymarferwyr fod yn broffesiynol chwilfrydig am bob person ifanc ac yn effro i arwyddion risg camfanteisio troseddol:

“Mae [eu] cartref yn eithaf sefydlog, ond o ran pa mor agored i niwed ydynt yn y gymuned maent yn wirioneddol agored i niwed, ac, mae hynny'n eu gwneud yn fwy agored i niwed oherwydd nad ydynt yn fflagio i fyny am unrhyw reswm arall... mae hynny'n eu gwneud yn fwy agored i niwed oherwydd y gallent lithro trwy'r rhwyd”

(Cyfweliadau ag ymarferydd)

Gall portreadau yn y cyfryngau o gamfanteisio'n droseddol ar blant atgyfnerthu stereoteipiau camarweiniol ei fod ond yn effeithio ar bobl ifanc Du neu o leiafrifoedd ethnig, y rhai sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig yng nghanol dinasoedd neu bobl ifanc mewn gangiau. Felly, efallai na fydd rhieni'n meddwl ei fod yn rhywbeth a all ddigwydd i'w plentyn nhw. Mae hyn yn cael ei gymhlethu gan yr oedran pan fydd pobl ifanc yn cael eu targedu. Mae'r glasoed yn gyfnod pan fydd pobl ifanc yn treulio llai o amser gyda'u rhieni neu ofalwyr a mwy o amser gyda'u cyfoedion wrth iddynt symud tuag at annibyniaeth:

“Ydych chi erioed wedi ceisio perswadio bachgen 16 oed i fynd i'r ysgol, mae'n fwy na chi, i fynd ag ef yno yn gorfforol os nad yw eisiau mynd - nid yw hynny'n deg ... nid yw pob rhiant yn cydgyllwynio nac yn gyfforddus gyda'r hyn sy'n digwydd, mae rhai ohonynt ofni am eu bywydau neu ddim yn gwybod sut i ddelio â'r mater, ac nid ydynt yn cael unrhyw help”

(Cyfweliad â rhiant)

Ni ddylid beio rhieni. Mae rhieni yn arbenigwyr ar eu plentyn; maent yn eu hadnabod a byddant yn sylwi ar newidiadau yn eu hymddygiad, eu hagweddau, eu grwpiau cyfoedion a/neu a ydynt yn aros allan yn hwyr. Felly, mae'n rhaid i ymarferwyr wrando ar rieni a gweld eu bod yn rhan o'r ymateb amlasiantaethol.

Ffactorau risg ar lefel teulu

Er bod rhai ffactorau risg ar lefel teuluol sy'n cynyddu'r siawns y bydd person ifanc yn agored i gamfanteisio troseddol ar blant, yn y rhan fwyaf o achosion nid y rhieni sydd ar fai. Mae'r rhai sy'n camfanteisio'n targedu pobl ifanc pan fyddant fwyaf agored i niwed, mae hyn yn cynnwys pan fyddant yn cael problemau gartref. Gall rhieni'n gwahanu guddio camfanteisio troseddol oherwydd gall newidiadau mewn ymddygiad gael eu priodoli i ymateb i'r teulu'n chwalu. Gall fod yn agored i gamfanteisio gynyddu hefyd os yw rhieni'n cael problemau sy'n effeithio'n andwyol ar eu gallu i ateb anghenion eu plentyn. Mae hyn yn cynnwys iechyd meddwl rhieni, camddefnyddio alcohol neu sylweddau, a cham-drin domestig. Gall pobl ifanc gael eu meithrin mewn perthynas amhriodol gan berthnasau hŷn fel brodyr a chwiorydd neu gefndryd. Gall brodyr a chwiorydd ifanc gael eu bygwth fel ffordd o reoli'r person ifanc sy'n dioddef y camfanteisio, neu gall brodyr a chwiorydd iau etifeddu eu dyled i'r un sy'n camfanteisio. Gall camfanteiswyr hefyd ddylanwadu ar rieni i ddod yn gyfeillion neu i ddefnyddio cyfeillgarwch presennol i dargedu eu plant. Gall hyn ei gwneud hi'n anodd i rieni wybod pwy i ymddiried ynddynt:

“Rwy'n teimlo'n wirioneddol baranoid am bopeth oherwydd, wyddoch chi, ces i alwad ffôn gan fam arall a oedd eisiau rhywfaint o gefnogaeth i'w mab, ond mewn gwirionedd daeth yn amlwg bod ei mab yn un o'r bechgyn hŷn a oedd yn meithrin perthynas amhriodol â fy mab” (cyfweliad â rhiant).

Mae hyn yn golygu bod angen ymyriadau teulu cyfan er mwyn meithrin gwytnwch a chryfhau ymatebion teuluoedd i gamfanteisio'n droseddol ar blant.

Perygl i'r teulu

Mae rhieni'n aml yn ddiodefwr eilaidd oherwydd natur ac effaith camfanteisio troseddol ar blant. Gall y rhai sy'n camfanteisio ddychryn a bygwth rhieni yn eu cartrefi neu weithleoedd, yn enwedig lle mae pobl ifanc wedi cael eu symud o'r ardal fel mesur amddiffynnol. Felly, roedd llety gwirfoddol yn rhoi aelodau o'r teulu mewn perygl o drais. Awgrymodd y canfyddiadau cychwynnol fod y mesur hwn wedi methu ag amddiffyn pobl ifanc rhag camfanteisio parhaus (Maxwell a Wallace, 2021).

Gall rhieni fod yn amharod i ddweud wrth wasanaethau beth sy'n digwydd neu roi gwybod am eu plentyn ar goll rhag ofn y bydd hyn yn arwain at eu niweidio gan y bobl sy'n camfanteisio arnynt. Mae hyn yn rhoi rhieni mewn sefyllfa anodd o fod eisiau amddiffyn eu plentyn ond heb wybod sut i wneud hyn yn ddiogel.

“Byddant yn rhoi cyfarwyddiadau yn unig, o ble i fynd neu byddant, wyddoch chi, yn y rhan fwyaf o achosion yn eu bygwth oherwydd rwy'n cofio bod fy mab yn arfer dod ataf a dweud, “Mam, dydych chi ddim yn deall, mae'n fwy na chi, mae'n fwy na phawb. Alla i ddim egluro, Mam, mae'n ormod. Alla i ddim, Mam, ond plis, ymddiried ynof i, ymddiried ynof i.” Ond gallwn weld yr ofn yn ei lygaid.
(Cyfweliad â rhiant)

Gall rhieni hefyd ddrwgdybio gweithwyr proffesiynol ac ofni ymatebion amddiffyn plant i'r plentyn y camfanteisir arno a i'w plant eraill. Efallai y byddant yn anfodlon siarad â'r heddlu rhag ofn bod eu plentyn yn cael ei droseddu a/neu'r diwylliant yn erbyn cario clecs a risg o ôl-ffeithiau i'w plentyn.

Ffactorau cymunedol

Mae camfanteisio fel arfer yn digwydd y tu allan i'r cartref. Mae pobl ifanc yn cael eu meithrin mewn perthynas amhriodol yn y gymuned leol trwy gyfeillgarwch, pwysau cyfoedion neu lle mae cyfoedion hŷn yn rhoi arian iddynt, yn mynd â nhw allan am fwyd neu am ddiwrnodau allan. Gall fod mewn parciau neu yn yr ysgol gan bobl y maent yn eu hadnabod, ar y stryd gan ddieithriaid neu ar gyfryngau cymdeithasol:

“Gwnaeth rhywun gysylltu â mi. Dim apiau na dim byd. Roeddwn i ar fy mhen fy hun ac fe wnaethant gynnig ffôn i mi, llosgwr. Doeddwn i ddim yn ei adnabod”
(Cyfweliad â phobl ifanc)

Felly, gall gweithio gyda'r gymuned a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd fod o gymorth o ran adnabod ac amddiffyn pobl ifanc rhag camfanteisio. Gellir gwneud hyn trwy waith diogelu cyd-

destunol trwy mapio diogelwch a chymheiriaid. Mae mapio diogelwch yn offeryn y gellir ei ddefnyddio i ddeall ble mae pobl ifanc yn teimlo'n ddiogel a ble maent yn teimlo'n agored i niwed (am fwy o wybodaeth gweler y Rhwydwaith Diogelu Cyd-destunol yn <https://www.csnetwork.org.uk/en/>).

Ar lefel unigol, mae'n gwella diogelu gan ei fod yn llywio cynllunio diogelwch a gellir ei ddefnyddio i fframio sgysiau ynghylch sut i gryfhau'r ffactorau amddiffynnol sy'n ymwneud â phobl ifanc. Gall ymarferwyr ddefnyddio'r wybodaeth hon i lywio eu penderfyniadau. Mae'n bosibl y bydd yn eu helpu i ddeall pam nad yw'r person ifanc yn mynychu apwyntiadau mewn ardaloedd penodol neu pam efallai nad yw am fynd i ardaloedd penodol. Gall helpu ymarferwyr i nodi'r manau lle mae pobl ifanc eisiau treulio'u hamser a lle maen nhw'n teimlo'n ddiogel. Ar lefel gymunedol, gellir cynnig hyfforddiant diogelu i fusnesau lleol, gweithwyr trafndiaeth gyhoeddus neu ddarparwyr llety. Rhaid i hyfforddiant o'r fath gynnwys manylion am sut y gallant roi gwybod am eu pryderon.

Gwaith amlasiantaethol

Gan fod camfanteisio'n droseddol ar blant yn fater trawsbynciol, mae diogelu cymhleth effeithiol a ddarperir gan bartneriaid amlasiantaethol yn hanfodol. Mae gweithio amlasiantaethol yn galluogi diogelu cymhleth, pontio a chyd-destunol. Mae hyn yn cefnogi dull system gyfan y gellir ei dargedu at adnabod ac amddiffyn pobl ifanc drwy weithio gyda'i gilydd i:

- Atal camfanteisio ar blant yn droseddol.
- Cefnogi plant a phobl ifanc yn ddiogel i ffwrdd o gamfanteisio.
- Nodi, tarfu ar y rhai sy'n camfanteisio, a'u herlyn.

Ni ddylai ymarferwyr gymryd yn ganiataol bod asiantaethau eraill yn cadw'r un wybodaeth am berson ifanc. Anaml y ceir tystiolaeth glir bod person ifanc yn cael ei gamfanteisio'n droseddol. Efallai na fydd un darn o dystiolaeth neu bryder yn awgrymu camfanteisio troseddol ond pan fydd gwybodaeth yn cael ei chasglu ar draws asiantaethau mae hyn yn rhoi darlun cynhwysfawr. Mae hyn yn ei gwneud yn hanfodol i ymarferwyr ar draws pob sector gyfrannu at ymatebion amlasiantaeth i gamfanteisio'n droseddol ar blant.

Er mwyn i waith amlasiantaethol fod yn effeithiol, mae'n rhaid i ymarferwyr sefydlu prosesau sy'n hwyluso cydweithio ar draws asiantaethau sy'n adeiladu ar iaith a rennir a diwylliant o barch (Gweler Ffigur 3). Dylai hyn gael ei ategu gan genhadaeth a rennir i ddatblygu a thargedu ymatebion i risg a niwed y tu allan i amgylchedd y teulu a'r gallu i weithio gyda risgiau diogelu cymhleth a datblygu ymyriadau a dulliau nad ydynt yn llinol nac yn gyfyngedig o ran amser.

Dulliau cymunedol

Ar lefel gymunedol, rhaid i ymarferwyr rannu gwybodaeth am gamfanteisio troseddol a sut mae'n amlygu ac yn esblygu o fewn yr ardal leol fel y gellir adnabod addasiadau newydd o'r model yn gyflym. Dylai'r wybodaeth hon gael ei defnyddio i fynd ar drywydd, paratoi, atal a diogelu. Er enghraifft, dylai'r heddlu fynd ar drywydd y rhai sy'n camfanteisio ar frig yr hierarchaeth ac amddiffyn pobl ifanc ar lefel y stryd trwy strategaethau tarfu a ddefnyddir mewn ardaloedd problemus. Dylai'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedau Diogelach ganolbwyntio ar baratoi ac atal trwy godi ymwybyddiaeth a datblygu mentrau lleol ynghylch camfanteisio troseddol ar blant. Dylai hyn gynnwys gweithio gyda'r heddlu ac ymarferwyr tai i fynd i'r afael â chogio a gwella ymatebion diogelu cymunedol drwy hyfforddiant i fusnesau lleol, gan gynnwys gyrwyr tacsï, gweithwyr bwyd cyflym, staff gwestai a cheidwaid parciau. Dylai ymarferwyr addysg roi'r wybodaeth a'r sgiliau i bobl ifanc i atal ac amddiffyn eu hunain rhag camfanteisio troseddol ar blant. Dylai hyn gael ei ymgorffori yn y cwricwlwm perthnasoedd iach. Rhaid i ysgolion ddeall eu hardal leol a sicrhau bod gan bobl ifanc lwybrau diogel i'r ysgol ac oddi yno, yn enwedig lle mae pobl ifanc yn byw yn agos at y rhai sy'n camfanteisio:

Mae fel petai e ddim eisiau cael ei weld rhag ofn i rywun fynd ato - dydw i ddim yn gwybod a yw hyn yw oherwydd ofn neu oherwydd nad yw eisiau ymddangos yn wan a dweud, na, does gen i ddim diddordeb, dw i wedi symud ymlaen” (Cyfweliad â rhiant)

Ffigur 3: Egwyddorion gweithio amlasiantaeth effeithiol





Child first, offender second

- Adopt a rights-based approach.
- Listen to what matters to the young person.
- Ensure that assessment of risk goes beyond criminal exploitation.
- Understand that the risk of harm to young people can fluctuate over time.

Shared language

- Adopt a common language, with shared definitions and thresholds.
- Avoid sector-specific jargon.
- Ensure that no victim-blaming terms are used.
- Agreed upon terms of reference and ways of working.




Parents as part of the solution

- Understand that parents are experts on their children.
- Understand the limited influence parents have on teenagers.
- Ensure that parents are not blamed; most young people are criminally exploited by other adults.
- Appreciate that parents have important information that can be used for safeguarding.

Clear roles and responsibilities

- Understand each agency's role, remit and priorities.
- Understand what each agency can contribute.
- Establish communication channels between agencies.
- Ensure multi-agency plans are developed and delivered.




Information sharing

- Establish protocols for recording, sharing and updating information.
- Understand what information should be shared.
- Consider whether the risk to the young person will increase if information is shared.

Specialist knowledge

- Build specialist knowledge of how child criminal exploitation operates in the local area and initiatives to target it.
- Ensure knowledge of child criminal exploitation is up-to-date.
- Ensure that relevant information is disseminated across and within agencies.



Rhannu gwybodaeth

Mae rhannu gwybodaeth yn elfen hanfodol o waith amlasiantaethol a diogelu pobl ifanc y camfanteisir arnynt yn droseddol. Rhaid i ymarferwyr ddeall eu cyfrifoldebau o dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a pha wybodaeth y mae'n rhaid ei rhannu ag asiantaethau eraill; pa wybodaeth a allai gefnogi gwneud penderfyniadau effeithiol, a pha wybodaeth sy'n peri risg i'r person ifanc pe bai'n cael ei rhannu. Rhaid i asiantaethau sicrhau bod ymarferwyr yn deall y gwahanol ystyriaethau a bod ganddynt systemau a phrosesau effeithiol ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth yn amserol. Mae hyn yn cynnwys diweddarau gwybodaeth yn rheolaidd fel nad yw pobl ifanc yn destun gor-wyliadwriaeth pan fydd eu risg wedi'i gynnwys.

Mae mapio cymheiriaid (Sloane et al., 2019) yn offeryn defnyddiol ar gyfer nodi cysylltiadau person ifanc, camfanteiswyr posibl a phobl ifanc eraill y gellid camfanteisio arnynt yn droseddol. Gall y wybodaeth hon helpu i ddiogelu pobl ifanc ac amharu ar ac erlyn camfanteiswyr. Wrth wneud hynny, mae angen eglurder ynghylch cydbwysedd tystiolaeth, rôl wirioneddol a chanfyddedig pob un o'r cyfoedion a enwir a pha gamau a gymerwyd. Rhaid diweddarau'r map yn rheolaidd. Dylai ymarferwyr gael canllawiau clir ynghylch pryd y dylid hysbysu pobl ifanc a rhieni bod eu henw wedi cael ei fapio a'i gofnodi gan gyfoedion.

Cyfarfodydd Amlasiantaeth Camfanteisio ar Blant (MACE)

Mae cyfarfodydd Amlasiantaeth Camfanteisio ar Blant (MACE) yn cael goruchwyliaeth strategol ar draws yr holl achosion o gamfanteisio yn yr ardal. Rhaid i asiantaethau fod â chylch gorchwyl cytunedig, eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau, protocolau rhannu gwybodaeth a chydlynedd arweiniol (gweler Ffigur 3).

Ni fydd unrhyw un asiantaeth yn cadw'r holl wybodaeth am berson ifanc. Trwy gyfrannu'r hyn sy'n hysbys am y person ifanc gellir cael darlun cynhwysfawr:

“Mae pobl yn rhedeg MACE yn wahanol ledled Cymru, mae ein MACE yn strategol iawn, nid ydym yn siarad am blant unigol; rydym yn siarad am dueddiadau a themâu, rydym yn siarad am weithrediadau'r heddlu, rydym yn siarad am fannau problemus ac mewn gwirionedd beth sy'n cael ei wneud amdanynt a beth arall y gellir ei wneud”
(Cyfweliad Ymarferydd Gwaith Cymdeithasol)

Nod MACE yw rhannu gwybodaeth bwysig sy'n ymwneud â:

- Dioddefwyr camfanteisio.
- Camfanteiswyr.
- Mannau a lleoedd lle mae camfanteisio troseddol yn digwydd.
- Themâu a thueddiadau.

Nid yw wedi'i gynllunio i reoli achosion unigol. Rhaid bod unrhyw achosion yr aed â nhw i'r MACE wedi bod yn destun cyfarfod strategaeth amlasiantaeth.

Pwrpas MACE yw cyfarfod bob mis er mwyn:

-
- Cefnogi dull partneriaeth tuag at gam-fanteisio troseddol ar blant ar gyfer plant a phobl ifanc hyd at 25 oed.
 - Nodi dulliau i fynd i'r afael â chamfanteisio troseddol ar blant yn y tymor byr, canolig a hirdymor.
 - Nodi a mynd i'r afael ag unrhyw broblemau neu heriau posibl wrth weithredu ymyriadau.
 - Gwneud yn siŵr bod adnoddau'n cael eu cyfeirio at y dulliau mwyaf effeithiol mewn ffordd amserol.

Mae hyn yn dibynnu ar gael y systemau yn eu lle i gofnodi a rhannu'r wybodaeth hon yn gyflym. Er bod cyfarfodydd MACE wedi'u targedu at ymatebion lleol, dylent hefyd fwydo i mewn i'r hyn sy'n hysbys am gamfanteisio troseddol ar blant mewn ardaloedd cyfagos ac ar draws Cymru. Mae angen hyn yn arbennig lle y camfanteisir ar bobl ifanc trwy linellau cyffuriau neu trwy linellau aneglur gan y gallai pobl ifanc gael eu masnachu ledled Cymru. Mae hysbysu asiantaethau mewn awdurdodau lleol eraill yn helpu i adnabod ac olrhain pobl ifanc y camfanteisir arnynt yn droseddol ac yn llywio dull strategol o ddiogelu. Mae hefyd yn rhybuddio asiantaethau pan fydd nifer o awdurdodau lleol yn gwybod am berson ifanc fel y gallant greu darlun o'r hyn sy'n digwydd a chreu cynllun gofal a chymorth i ddiwallu anghenion y person ifanc.

Cyfarfodydd strategaeth amlasiantaeth

Mae cyfarfodydd strategaeth amlasiantaethol wedi'u hanelu at gadw'r person ifanc yn ddiogel rhag camfanteisio. Maent yn cael eu harwain gan y gyfraith a chan ganllawiau statudol gan gynnwys:

- Deddf Llesiant Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014.
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru.
- Deddf Plant 1989.

Mae ymateb amlasiantaethol yn hollbwysig gan y bydd asiantaethau gwahanol yn cadw gwybodaeth wahanol am berson ifanc. Gall rhannu gwybodaeth lenwi'r bylchau am yr hyn sy'n hysbys am y person ifanc. Mae'n darparu gwybodaeth am gamfanteisio yn ardal yr awdurdod lleol a ddefnyddir i ddiogelu'r person ifanc unigol a phobl ifanc eraill yn y gymuned ehangach drwy blismona wedi'i dargedu, gwaith ieuenctid ac ymyriadau eraill.

O dan adran 47 Deddf Plant 1989, mae'n rhaid cynnal cyfarfod strategaeth amlasiantaethol neu drafodaeth pan amheuir bod camfanteisio troseddol ar blant yn digwydd. Dylai'r asesiad adran 47 ystyried anghenion y person ifanc yn hytrach nag a yw'n bodloni trothwyon gwasanaeth. Nod y cyfarfod yw:

- Rhannu gwybodaeth
- Nodi anghenion gofal a chymorth y plentyn
- Datblygu cynllun i leihau'r risg o gamfanteisio

Dylai'r ymateb aml-asiantaeth gael ei arwain gan wasanaethau plant a phenderfynir ar bresenoldeb ynddo ar sail i ba raddau y mae ymarferwyr yn adnabod y plentyn a/neu yn gallu gyfrannu gwybodaeth am gamfanteisio a chadw'r person ifanc yn ddiogel. Gall hyn gynnwys meddyg, yr heddlu, cynrychiolydd ysgol, prawf neu adsefydlu cymunedol, gwasanaeth troseddau

ieuenctid, neu wasanaethau camddefnyddio sylweddau. Mae'n rhaid bod o leiaf tair asiantaeth broffesiynol wahanol yn bresennol. Mae'n rhaid i bob asiantaeth gefnogi'r broses hon er mwyn hwyluso'r broses o adnabod yr ymarferwyr cywir yn brydlon.

Mae'n rhaid ystyried barn y person ifanc naill ai drwy Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol neu, lle y bo'n briodol, presenoldeb y person ifanc yn y gynhadledd. Dylai'r person ifanc ddeall pwrpas y gynhadledd, y bydd yn bresennol ynddo a chael ei gefnogi i baratoi ei gyfraniad. Dylai'r person ifanc gwrdd â chadeirydd y gynhadledd cyn y cyfarfod.

Dylid anfon copiâu o'r adroddiad at rieni cyn y gynhadledd a dylent fod yn barod i feddwl am ddymuniadau a theimladau'r person ifanc. Dylai mamau a thadau gael eu cefnogi i fod yn bresennol a chymryd rhan. O ran tadau, derbynir yn eang eu bod yn llai tebygol o ddod i gyfarfodydd felly dylid defnyddio strategaethau rhagweithiol i feithrin eu hymgysylltiad. Bydd disgwyl i'r ddau riant rannu eu barn, cywiro unrhyw gamgymeriadau, a deall pam mae gwahanol asiantaethau'n gysylltiedig. Dylid dweud wrthynt y gallant ddod â ffrind, aelod o'r teulu neu gefnogwr arall gyda nhw. Ni ddylai pobl ifanc a rhieni gael eu llethu gan nifer yr ymarferwyr sy'n bresennol.

Mae'n rhaid i bob ymarferydd anfon adroddiad, hyd yn oed os yw'n gallu mynychu'r gynhadledd. - O dan Weithdrefnau Diogelu Cymru, dylid cynnal y cyfarfod amlasiantaethol yn y lleoliad daearyddol lle mae'r person ifanc wedi'i leoli. Yn y cyfamser mae hyn yn galluogi asiantaethau lleol i ymateb, mae'n rhaid rhannu'r wybodaeth hon gydag asiantaethau yn yr ardal lle mae'r person ifanc yn byw. Dylid ystyried a yw cyfarfodydd misol yn briodol ar gyfer camfanteisio troseddol ar blant. Mae'r risgiau i blant a phobl ifanc yn gallu newid yn gyflym iawn. Mewn rhai ardaloedd, sefydlwyd cyfarfodydd wythnosol i drafod risg pobl ifanc fel y gall partneriaid amlasiantaeth fonitro risg a mynd i'r afael â phryderon sy'n dod i'r amlwg yn brydlon.

Y cynllun gweithredu

Dylai cyfarfodydd strategaeth asiantaeth aml-strategaeth arwain at gynhyrchu ymateb cydgysylltiedig ar draws asiantaethau. Dylai hyn gynnwys cynllun gweithredu clir gyda phrosesau yn eu lle i fonitro'r cynllun i sicrhau ei fod yn diwallu angen y person ifanc ac yn ei amddiffyn rhag camfanteisio troseddol ar blant.

Dylid ystyried cymhlethdodau camfanteisio troseddol ar blant a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar bobl ifanc ac ar eu teuluoedd. Bydd angen i'r cynllun gweithredu:

- Mynd i'r afael â holl anghenion gofal a chymorth y person ifanc.
- Mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar blant
- Cynnwys y cyd-destun ehangach i'r person ifanc, nid dim ond yr ymddygiadau neu faterion gweladwy.
- Bod yn hawdd ei gyrchu
- Bod â strategaethau clir ar gyfer gweithio gyda phobl ifanc nad ydynt, o bosibl, y derbyn neu'n gwybod eu bod yn profi camfanteisio troseddol ar blant.

Ar ôl paratoi'r cynllun a nodi'r partneriaid cyflenwi, dylai'r gweithiwr cymdeithasol ddweud wrth y plentyn, y person ifanc a'r teulu beth sydd yn y cynllun, dylai amlinellu'r rôl asiantaethau a

nodwyd a darparu person enwedig y gallant gysylltu ag ef/hi os oes gan y person ifanc neu'r teulu gwestiynau neu broblemau.

Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM)

Pan fo amheuaeth fod person ifanc yn dioddef cam-fanteisio troseddol plant, mae'n rhaid i ymarferwyr wneud atgyfeiriad at y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol, y gelwir yr 'NRM' arno (Ffigur 4). Yn 2021 roedd cyfanswm o 190 o atgyfeiriadau at yr NRM ar gyfer plant 17 oed neu'n iau yng Nghymru yr oedd amheuaeth eu bod yn profi camfanteisio troseddol. O'r rhain, roedd 16 ar gyfer benywod a 174 ar gyfer gwrywod (Y Swyddfa Gartref, 2021). Yr NRM yw'r broses a ddefnyddir i benderfynu a yw person ifanc wedi dioddef caethwasiaeth a masnachu modern, ac mae'n bwysig cofio:

- Gallai'r gweithgaredd ymddangos yn gydsyniol ond yn ôl Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, ni all pobl ifanc dan 18 oed gydsynio i gael eu cam-drin neu eu masnachu (Y Swyddfa Gartref, 2015).
- Efallai na fydd pobl ifanc yn dangos arwyddion amlwg o ofid nac yn ystyried eu hunain mewn perygl o niwed.
- Mae'n bosibl na fydd pobl ifanc yn ymwybodol eu bod wedi cael eu masnachu neu y camfanteisiwyd arnynt.

Does dim angen i ymarferwyr fod yn sicr bod rhywun yn ddiodeffwr cyn ei atgyfeirio. I bobl ifanc hyd at 18 oed does dim angen eu caniatâd i wneud atgyfeiriad. Mae'n rhaid i bobl ifanc dros 18 oed gydsynio i atgyfeiriad gael ei wneud.

Gell yr heddlu, awdurdodau lleol, a rhai sefydliadau gwirfoddol wneud atgyfeiriad i'r NRM. Mae'n bosibl mai ymarferwyr o sefydliadau'r trydydd sector sydd yn y sefyllfa orau i ymgymryd â'r rôl hon gan nad ydynt yn cael eu cyfyngu gan rôl statudol ac o'r herwydd, efallai y bydd ganddynt fwy o gyfle i adeiladu trafodaeth gyfeillgar gyda phlant a phobl ifanc, sefydlu ymddiriedaeth a darparu cymorth a chefnogaeth.

Dylid cyfeirio atgyfeiriadau NRM at yr heddlu hefyd oherwydd bod holl ddiodeffwyr caethwasiaeth fodern yn ddiodeffwyr i droseddau posib. Dylai hyn naill ai gael ei wneud gan y person sy'n gwneud yr atgyfeiriad NRM neu gan yr awdurdod cymwys. Dylid dweud wrth y person ifanc y bydd ei achos yn cael ei drosglwyddo i'r heddlu gan ei fod yn ddiodeffwr posib i drosedd.

Pan gyfeirir plentyn neu berson ifanc at yr NRM, rhaid eu cyfeirio o hyd at Wasanaethau Plant o dan Ran 7 Deddf Llesiant Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014.

Gellir apelio yn erbyn penderfyniad negyddol ar Sail Resymol negyddol neu benderfyniad cadarnhaol ar Sail Resymol mewn dwy ffordd:

1. **Ailystyriaeth.** Gall ymatebwr cyntaf neu ymarferydd ofyn i'r awdurdod cymwys edrych ar y dystiolaeth eto neu gynnwys tystiolaeth newydd wrth wneud penderfyniad.
2. **Adolygiad barnwrol.** Gall y person ifanc ofyn i'r llys adolygu'r penderfyniad.

Dylai penderfyniad NRM positif arwain at ganlyniadau gwell i'r person ifanc. Ond os nad yw pobl ifanc yn cael eu diogelu'n briodol, mae risg y bydd pobl ifanc yn cael eu dychwelyd i gamfanteiswyr. Gall y person ifanc hefyd fod mewn perygl gan y camfanteiswyr os ydyn nhw'n credu bod y person ifanc wedi osgoi cael ei erlyn drwy 'ddweud arnynt'. Mae hyn yn golygu bod angen ymarfer creadigol a chryfderau o gwmpas monitro pobl ifanc sydd wedi bod drwy'r NRM.

Ffigur 4: Y broses NRM

NATIONAL REFERRAL MECHANISM (NRM)



10 steps to making a referral

The National Referral Mechanism (NRM) is a framework for identifying victims of modern slavery and human trafficking and ensuring they receive the appropriate protection and support. Modern slavery includes exploitation.



1

NRM Criteria

A section 45 defence can be used for criminal activities such as trafficking, modern slavery, theft, growing cannabis, sexual exploitation and immigration.



4

NRM General Indicators

The application form includes 20 general indicators. First Responders should also include: warning signs and specific events such as going missing, unexplained injuries or relationships with older peers or adults.



3

Which first responder?

Young people may be reluctant or unwilling to talk to the police. They may also worry that they will be arrested or taken into local authority care.



2

Making a referral - First Responders

- Mae'n bosibl y bydd pobl ifanc yn cael eu hyfforddi yn yr hyn i'w ddweud, felly gallant ailadrodd straeon tebyg i rai eraill neu ddefnyddio termau nad ydynt yn eu deall.

(Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan ar gyfer Diogelu plant a allai gael eu masnachu, 2019c)

At hyn, dylai ymarferwyr addysg chwilio am newidiadau mewn ymddygiad, ymddangosiad neu eiddo newydd heb ei esbonio:

"... newidiadau mewn presenoldeb, ymddangosiad corfforol felly os ydynt wedi blino ac yn edrych fel eu bod nhw wedi bod ar ddiun trwy'r nos, dillad, felly mae'n troi i fyny mewn pâr o Nikes gwerth £400, llawer o arian parod ac oriorau, symiau uchel o arian na fyddech chi'n eu disgwyl y byddai gyda rhywun ar gofrestr prydau am ddim yr ysgol, meddwdod... a mwy o amllder mynd i drafferth gyda'r awdurdodau"

(Cyfweiliad ag ymarferydd addysg).

Mae'n bosibl y bydd ymarferwyr addysg yn sylwi bod disgyblion a arferai fod yn sylwgar yn ymddieithrio oddi wrth addysg. Ond i'r gwrthwyneb, gall disgyblion a fu gynt yn aflonyddgar ddod yn sylwgar gan fod camfanteiswyr yn dechrau hyfforddi disgyblion i aros mewn ysgolion ac osgoi sylw athrawon.

Gweithio gyda phobl ifanc

Ni all addysg gystadlu â'r arian hawdd a gynigir gan gamfanteiswyr. Mae'n rhaid i ymarferwyr addysg ddarparu ystod o opsiynau a chyfleoedd iddynt:

“Dangoswch iddynt fod mwy i fywyd na threulio amser gyda’r boi hwn a gwneud hynny. Wfft i hynny. Mae gobaith bob amser. Mae cyfle bob amser. Fe lwyddwch i gyrraedd yno.”
Rhowch nodau iddynt. Gosodwch dargedau”.

(Cyfweliad â pherson ifanc)

Dylid rhoi cymorth wedi'i dargedu i bobl ifanc sy'n cael trafferth gyda'u hastudiaethau academiaidd, a'r rhai sydd ag anawsterau neu broblemau personol gartref. Gan nad oes gan ymarferwyr addysg yr amser, yr arbenigedd na'r adnoddau i fynd i'r afael â'r anghenion hyn, mae'n bosibl y bydd angen iddynt ddatblygu mentrau gydag asiantaethau eraill gan gynnwys sefydliadau trydydd sector. Mae hyn yn cynnwys defnyddio'r systemau presennol i gefnogi pobl ifanc agored i niwed a chael disgwyliadau uchel ar gyfer pob person ifanc:

“Mae pob un o'r rhain yn swyddi pitw na fyddai unrhyw un eisiau gwneud cais ac astudio ar eu cyfer. Byddant yn ei roi i'r rheiny sy'n methu yn yr ysgol. Dyna beth rwy'n ei gredu.”

(Cyfweliad â pherson ifanc)

Addysg: Canllawiau polisi ac ymarfer

Mae gan bobl ifanc yr hawl i addysg o dan Erthyglau 28 a 29 o Gonfensiwn Hawliau'r Plentyn y Cenedloedd Unedig (CCUHP), gyda'r nod o ddatblygu personoliaeth, doniau a galluoedd meddyliol a chorfforol person ifanc i'w lawn botensial.

Yng Nghymru, mae addysg yn cael ei harwain gan sawl darn o ddeddfwriaeth, gan gynnwys Deddf Addysg 2002, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Cydraddoldeb 2010. At hyn, mae dyletswyddau cyfreithiol o fewn y canllawiau statudol, 'Cadw Dysgwyr yn Ddiogel' (2021).

Deddf Addysg 2002

O dan adran 175 o Ddeddf Plant 2002, mae gan Weinidogion Cymru bwerau i ddiogelu plant a phobl ifanc a hyrwyddo eu lles. Mae hyn yn cynnwys rolau a chyfrifoldebau i:

- Awdurdodau lleol.
- Cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir.
- Sefydliadau addysg bellach.

Personau Diogelu Dynodedig (DSP).

Dylai fod gan bob lleoliad addysg neu ddarpariaeth amgen Berson Diogelu Dynodedig (DSP) gyda chyfrifoldeb arweiniol dros ddiogelu. Mae gan y DSP gyfrifoldebau strategol sy'n cynnwys gweithio gydag asiantaethau eraill i gefnogi gwaith amlasiantaethol effeithiol a chyfrannu at ymatebion cydgysylltiedig i ddiwallu anghenion pobl ifanc. I gyflawni'r rôl hon, dylai DSPs:

- Gwybod sut i adnabod yr arwyddion rhybuddio a deall pryd mae'n briodol atgyfeirio at wasanaethau plant.
- Bod ar gael pan fo angen i gynghori staff neu siarad â phobl ifanc ar 'adegau beirniadol'. Mae'r rhain yn adegau pan fydd y person ifanc yn fwy tebygol o fod eisiau neu dderbyn cymorth a chefnogaeth.
- Rhaid i DSPs fynychu cyfarfodydd statudol a chysylltu ag asiantaethau eraill.
- Codi ymwybyddiaeth ymhlith eu cydweithwyr a sicrhau bod staff arbenigol fel cynorthwywyr addysgu, staff cymorth dysgu ac unrhyw staff eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn cael hyfforddiant i'w helpu i adnabod dioddefwyr posibl camfanteisio.
- Rhoi cyngor a chymorth i staff eraill a chysylltu ag asiantaethau eraill fel y bo'n briodol.
- Sicrhau bod yr holl staff addysg yn deall camfanteisio troseddol ar blant, yr arwyddion rhybuddio a pholisïau'r lleoliad addysg.
- Ystyried sut y gellir mynd i'r afael â phryderon diogelu ynghylch camfanteisio troseddol ar blant a pha fesurau ataliol sydd eu hangen
- Cynnal cysylltiadau â gwasanaethau a sefydliadau lleol a chenedlaethol arbenigol i hwyluso darpariaeth atgyfeiriadau priodol a'r cymorth cywir ar yr adeg gywir.

Llywodraethwyr Ysgolion a Cholegau neu Bwyllgorau Rheoli

Dylai pob llywodraethwr ysgol a choleg neu bwyllgor rheoli gael hyfforddiant perthnasol ar ddiogelu ac amddiffyn plant. Dylai hyn gynnwys lleiafswm o fodiwlau ynghylch Cadw Dysgwyr yn Ddiogel (2021) a bod wedi'i anelu at ddealltwriaeth ddigonol o gamfanteisio troseddol ar blant i gyflawni eu dyletswyddau diogelu i'r ysgol, y coleg neu'r lleoliad addysg. Yn benodol, mae'n rhaid iddynt sicrhau y canlynol:

- Mae gan leoliadau addysg bolisiâu diogelu effeithiol ar gyfer camfanteisio troseddol ar blant.
- Staff sydd wedi'u hyfforddi i gyflawni eu cyfrifoldebau diogelu.
- Mae hyfforddiant staff yn gyfredol.
- Trefniadau priodol i sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr dros dro yn deall eu cyfrifoldebau diogelu.
- Sicrhau bod unrhyw wendidau neu broblemau gydag amddiffyn a diogelu plant yn cael eu datrys.
- Sicrhau bod y DSP, y llywodraethwr dynodedig, a chadeirydd y llywodraethwyr yn derbyn hyfforddiant mewn gwaith rhyngasiantaethol.

Mae gan y llywodraethwr dynodedig ar gyfer diogelu gyfrifoldebau ychwanegol. Y llywodraethwr hwn sy'n gyfrifol am yr holl faterion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant. Mae'n rhaid iddynt sicrhau bod y corff llywodraethu yn cynnal adolygiad blynyddol o bolisiâu a gweithdrefnau diogelu a'u bod wedi cael eu creu a'u defnyddio o fewn y lleoliad addysg.

Addysg Heblaw Yn Yr Ysgol (EOTAS)

Darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol yw addysg sydd wedi'i hanelu at ddiwallu anghenion pobl ifanc na allant fynychu ysgol brif ffrwd. Mae hyn yn gallu cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, Unedau Cyfeirio Disgyblion, llwybrau unigol, a mathau eraill o ddarpariaeth sector gwirfoddol neu annibynnol.

O dan adran 7 Deddf Addysg 1996, mae gan bobl ifanc hawl i gael addysg addas ac effeithlon. Mae pobl ifanc nad ydynt yn derbyn addysg addas mewn "perygl o amrywiaeth o ganlyniadau negyddol a allai gael canlyniadau niweidiol hirdymor i'w cyfleoedd bywyd" (Llywodraeth Cymru 2019). Mae Llywodraeth Cymru (2017) yn disgrifio dysgwyr EOTAS fel rhai o'r dysgwyr mwyaf agored i niwed gan eu bod yn cynnwys pobl ifanc â phroblemau meddygol, anghenion dysgu ychwanegol neu'r rhai sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol brif ffrwd.

Mae Deddf Addysg 1996 yn rhoi'r cyfrifoldeb am ddarpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol ar awdurdodau lleol.

Mae ddarpariaeth EOTAS yn cynnwys

- unedau cyfeirio disgyblion.
- Coleg addysg bellach.
- Ysgolion a gynhelir ac ysgolion nas cynhelir.
- Addysg sy'n gysylltiedig â gwaith.
- Darparwyr hyfforddiant.
- Mudiadau gwirfoddol.

Unedau Cyfeirio Disgyblion UCD) yw'r math o Addysg Heblaw yn yr Ysgol a ddefnyddir fwyaf.

Yn ôl papur briffio ymchwil y Cynulliad Cenedlaethol (2019) dylai UCD ddarparu lleoliadau tymor byr a thymor canolig gyda'r nod o ailintreiddio dysgwyr mewn ysgolion eraill. Mae'n werth nodi nad yw pob disgybl UCD yn derbyn ei addysg y tu allan i amgylchedd addysg prif ffrwd yn unig. Bydd rhai'n parhau i fod ar y gofrestr mewn ysgol brif ffrwd, gan dreulio cyfran o'r wythnos addysg rhwng darpariaethau prif ffrwd ac UCD, fel arfer am gyfnod byr, i helpu gydag ailintreiddio (Llywodraeth Cymru, 2019b).

Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 2021

Mae Llywodraeth Cymru yn amlinellu'r cyfrifoldebau diogelu ar gyfer ymarferwyr addysg yn y canllawiau statudol, 'Cadw Dysgwyr yn Ddiogel' (2021). Mae'n rhaid i feithrinfeydd, ysgolion, cyrff llywodraethu, colegau addysg bellach ac awdurdodau lleol ddilyn y canllawiau hyn. Fe'i hargymhellir hefyd ar gyfer gwasanaethau ieuenctid, darparwyr dysgu seiliedig ar waith, darparwyr Addysg Heblaw yn yr Ysgol a darparwyr addysg uwch.

Mae'r canllawiau'n nodi bod gan leoliadau addysg ddyletswydd gyfreithiol i amddiffyn a hyrwyddo llesiant pobl ifanc hyd at 18 oed. Mae'r canllawiau hyn yn defnyddio Deddf Llesiant Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014.

Mae'r canllawiau 'Cadw Dysgwyr yn Ddiogel' yn diffinio diogelu fel:

- Amddiffyn plant rhag niwed, camdriniaeth, esgeulustod a mathau eraill o niwed.
- Atal niwed i iechyd neu ddatblygiad plant.
- Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael gofal diogel ac effeithiol.
- Gweithredu i alluogi plant a phobl ifanc i gyflawni'r canlyniadau gorau.

Mae hyn yn golygu bod staff addysg yn gyfrifol am:

- Creu a chynnal amgylchedd dysgu diogel.
- Bod â'u polisiâu a gweithdrefnau eu hunain i gadw pobl ifanc yn ddiogel rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod.
- Nodi pryderon lles plant a chymryd camau i fynd i'r afael â nhw, mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill lle y bo hynny'n briodol.
- Datblygu dealltwriaeth, ymwybyddiaeth a gwydnwch pobl ifanc drwy'r cwricwlwm.

Gweithio mewn partneriaeth amlasiantaeth

Mae lleoliadau addysg yn cael eu hystyried yn rhan o'r system ddiogelu ehangach ar gyfer pobl ifanc, yn enwedig oherwydd ei fod yn bosibl mai nhw yw'r unig asiantaeth sy'n ymgysylltu â phobl ifanc a'u teuluoedd. Fe'u hystyrir fel y lle delfrydol i nodi pryderon cynnar, darparu cymorth a chefnogaeth a gwneud atgyfeiriadau priodol. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid i leoliadau addysg:

- Hyrwyddo ac amddiffyn hawliau plant a phobl ifanc.
- Cyfrannu at weithio amlasiantaeth effeithiol.

- Cyfathrebu ag asiantaethau sy'n darparu gofal a chymorth i blant, pobl ifanc a theuluoedd.

Mae'n rhaid i leoliadau addysg weithio gydag awdurdodau lleol, yr heddlu, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag niwed.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n rhaid i ymarferwyr hyrwyddo llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol plant a phobl ifanc yn ystod eu hoes. Mae hyn yn cynnwys galluogi plant a phobl ifanc i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau personol.

O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n rhaid i staff addysg ganolbwyntio ar waith ataliol i leihau effaith yr hyn a elwir yn 'Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod' (ACE). Mae'r rhain yn brofiadau plentyndod sy'n niweidio person ifanc yn uniongyrchol. Mae hyn yn cynnwys niwed i'r person ifanc fel cam-drin neu esgeuluso plant yn ogystal â niwed y maent yn ei brofi yn eu hamgylchedd megis rhieni'n camddefnyddio sylweddau neu rieni'n gwahanu. Mae hyn yn seiliedig ar ganfyddiadau ymchwil sy'n awgrymu bod ACE yn cael effaith negyddol ar ddatblygiad plant a allai arwain at anawsterau iechyd yn ddiweddarach yn eu bywydau (Bellis et al., 2015).

Er y gall presenoldeb ACE ddangos bod person ifanc mewn mwy o berygl o gael ei baratoi ar gyfer camfanteisio'n troseddol ar blant, mae'r Strategaeth Trais Difrifol (Llywodraeth EM, 2018) wedi rhybuddio rhag defnyddio ffactorau risg i ragfynegi ymddygiad yn y dyfodol.

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar gyrrff llywodraethu a darparwyr addysg i sicrhau nad yw eu harfer yn gwahaniaethu yn erbyn pobl ifanc sy'n ddisgyblion mewn ysgol, neu sy'n gwneud cais i ysgol. Mae'r Ddeddf yn diogelu pawb rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth yn seiliedig ar nodweddion gwarchoddedig, sy'n cynnwys anabledd, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, aillbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'r Ddeddf hefyd yn ystyried anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol.

Mae'r cyfrifoldeb hwn yn bodoli hyd yn oed pan fo pobl ifanc yn absennol, wedi cael eu gwahardd dros dro ac mae'n cynnwys cyn-ddisgyblion y lleoliad addysg.

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn darparu fframwaith statudol ar gyfer awdurdodau lleol, darparwyr addysg, cyrrff llywodraethu, timau troseddau ieuencid a darparwyr iechyd. Ei nod yw cefnogi pobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Daeth i rym ym mis Medi 2021 gan ddisodli'r hen fframwaith anghenion addysgol arbennig.

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno'r term 'angen dysgu ychwanegol' i ddisodli termau eraill a ddefnyddiwyd yn y gorffennol, gan gynnwys 'anghenion addysgol arbennig' neu 'anawsterau a/neu anableddau dysgu'. Mae'r term anghenion dysgu ychwanegol yn cynnwys pob plentyn a pherson ifanc sydd â nam gwybyddol, anableddau corfforol a hefyd:

- Anhwylder y Sbectrwm Awtistiaeth
- ADHA
- Dyslecsia
- Dyspracsia

Mae'r Ddeddf hefyd yn disodli'r term cydlynwyr anghenion addysgol arbennig gyda chydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol.

O dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, mae gan bobl ifanc angen dysgu ychwanegol os oes ganddynt fwy o anawsterau dysgu na phobl ifanc eraill yr un oed, neu os yw eu hanabledd yn atal neu'n ei gwneud yn anoddach iddynt ddefnyddio cyfleusterau addysg neu gyfleusterau hyfforddiant y gall eu cyfoedion gael mynediad atynt.

Y Ddeddf:

- Darparu cysondeb ar draws yr awdurdod lleol a darparwyr addysg.
- Gwella'r gwaith partneriaeth rhwng awdurdodau lleol, darparwyr addysg a byrddau iechyd.
- Yn gwneud darpariaeth ar gyfer Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) cyffredinol neu statudol ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc (dan 25 oed) sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Cefnogir y Ddeddf gan God Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru (<https://llyw.cymru/y-cod-anghenion-dysgu-ychwanegol>)

Cynllun Dysgu Unigol (IDP)

Mae Adran 10 o'r Ddeddf yn nodi y dylid creu Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) ar gyfer pob person ifanc hyd at 25 oed sydd ag angen dysgu ychwanegol, waeth beth yw'r difrifoldeb. Mae Cynlluniau Datblygu Unigol yn disodli Datganiadau a Chynlluniau Addysg Unigol ar gyfer plant a phobl ifanc ar y system Gweithredu gan yr Ysgol neu Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy. Mae darparwyr addysg yn gyfrifol am adnabod pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Dylai'r cynllun gael ei adolygu'n rheolaidd a'i ddiweddarau i ddiwallu anghenion gofal a chymorth y plentyn neu'r person ifanc, pan fo hynny'n briodol. Mae naill ai'n gyfrifoldeb i ysgolion neu awdurdod lleol.

Gwasanaethau Ieuenctid

O ystyried bod y model camfanteisio troseddol ar blant yn esblygu ac yn addasu, mae gweithwyr ieuenctid awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, gweithwyr cymorth ieuenctid a gwirfoddolwyr gwaith ieuenctid yn chwarae rhan bwysig mewn Diogelu Cymhleth, Cyd-destunol a Phontio. Mae gweithwyr ieuenctid, gweithwyr cymorth ieuenctid a gwirfoddolwyr gwaith ieuenctid mewn sefyllfa unigryw i gael gwybodaeth y tu allan i gartref y teulu, yn y cymunedau lle y mae pobl ifanc yn y perygl mwyaf o gamfanteisio troseddol. Oherwydd natur eu gwaith, mae gweithwyr ieuenctid, gweithwyr cymorth ieuenctid a gwirfoddolwyr gwaith ieuenctid yn aml yn gwybod am risgiau lleol i bobl ifanc ac maent yn ymgysylltu â phobl ifanc a allai fod o dan radar ymarferwyr eraill. Mae hyn yn cynnwys pobl ifanc nad ydynt yn gyson â stereoteipiau camfanteisio llinell cyffuriau y mae pobl yn eu credu'n gyffredinol, fel gwrywod, lleiafrifoedd du neu ethnig, aelodau gang a/neu'r rhai sy'n byw mewn tldi. At hyn, gall eu presenoldeb yn y gymuned olygu bod gweithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid yn gwybod am wybodaeth gan fusnesau lleol ac aelodau o'r cyhoedd, gan gynnwys sion am ddelio â chyffuriau fel mwy o weithgarwch mewn rhai meysydd:

“Roedd [perchennog busnes] yn dweud, mae rhywbeth od, mae yna rywun yn troi i fyny yn y car hwn, bydd y plant hyn yn hongian o gwmpas yma gyda'r nos ac yna mae'r car hwn yn troi i fyny ac maen nhw'n diflannu.”

(Cyfweliad â Swyddog Ieuenctid)

Mae'n rhaid cynnwys gweithwyr ieuenctid, gweithwyr cymorth ieuenctid a gwirfoddolwyr gwaith ieuenctid mewn ymatebion amlasiantaeth fel y gallant gael gafael ar wybodaeth a'i rhannu. Mae'n rhaid iddynt gyfrannu at wneud penderfyniadau ar lefel unigol a chymunedol a chyfrannu at ymatebion gwasanaethau. Mae'n bosibl mai gweithwyr ieuenctid, gweithwyr cymorth ieuenctid neu wirfoddolwyr gwaith ieuenctid fydd yr unig ymarferwyr sy'n gweithio gyda pherson ifanc sy'n profi cam-fanteisio troseddol. Felly, mae'n rhaid i bob gweithiwr ieuenctid, gweithiwr cymorth ieuenctid a gwirfoddolwr gwaith ieuenctid, pa un a ydynt yn darparu gwasanaethau wedi'u targedu neu wasanaethau cyffredinol feddu ar ddealltwriaeth gadarn o gamfanteisio troseddol ar blant a'r wybodaeth a'r sgiliau i nodi modelau sy'n dod i'r amlwg o gamfanteisio troseddol ar blant a chefnogi'r ifanc pobl ar y camau adnabod, cefnogi ac atal. Mae'n rhaid i wirfoddolwyr gwaith ieuenctid dderbyn hyfforddiant codi ymwybyddiaeth ac arweiniad ar beth i'w wneud os ydynt yn dod i gysylltiad â phlentyn neu berson ifanc y maent yn credu y gallai fod yn destun camfanteisio neu mewn perygl o brofi camfanteisio.

O ran adnabod pobl ifanc, pan fydd gweithiwr ieuenctid neu weithiwr cymorth ieuenctid yn amau bod rhywun ifanc yn profi camfanteisio troseddol, mae'n rhaid iddynt feddu ar y wybodaeth a'r sgiliau i gefnogi'r person ifanc wrth iddynt fonitro'r sefyllfa a chasglu tystiolaeth bellach nes y gellir atgyfeirio at wasanaethau plant a/neu'r NRM gwneud. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried bod hyn yn aml yn gyfres o bryderon yn hytrach na datgelu neu ddiwyddiad penodol. Mae gweithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid yn cefnogi pobl ifanc pan fydd asiantaethau eraill ar gau, ac y maent ar eu mwyaf agored i niwed. Felly, dylai gweithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid fod â'r gallu i weithio gyda lefelau risg cyfnewidiol a chael mynediad at ymatebion amlasiantaeth y tu allan i oriau swyddfa arferol pe bai'r person ifanc yn cyrraedd argyfwng (Panel Diogelu Ymarfer Plant (2020). Wrth ddarparu cefnogaeth i bobl ifanc, dylai gweithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid gael hyfforddiant mewn dulliau sy'n cael eu llywio gan ddealltwriaeth o drawma.

Mae camfanteiswyr yn fedrus wrth ddefnyddio bylchau mewn gwasanaeth; efallai byddant yn atal camfanteisio tra bod gwasanaethau'n gweithio gyda'r person ifanc ond byddant yn ailgydio yn y berthynas pan fydd y gwasanaethau'n camu yn ôl:

“Roedd [person ifanc] yn dod i mewn am dri mis gan ddweud, mae popeth yn iawn. Rydyn ni'n eu tynnu oddi ar y cynllun plant mewn angen ac maen nhw'n llofruddio rhywun dri mis yn ddiweddarach”

(Cyfweliad â Gweithiwr Ieuencid)

Felly, dylai gweithwyr ieuencid a gweithwyr cymorth ieuencid ddarparu cymorth cam i lawr unwaith y bydd cymorth asiantaeth arall yn dod i ben i sicrhau bod y person ifanc wedi gadael y berthynas camfanteisiol yn ddiogel. Yn olaf, mae gan weithwyr ieuencid, gweithwyr cymorth ieuencid a gwirfoddolwyr gwaith ieuencid rôl wrth atal camfanteisio troseddol ar blant. Dylai hyn gynnwys codi ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc a darparu ystod o sgiliau a thechnegau iddynt gryfhau eu gwytnwch cyffredinol, hyrwyddo dewisiadau ac ymatebion cadarnhaol, megis sut i osgoi sefyllfaoedd a allai fod yn beryglus, pryd a ble i geisio cymorth.

Dyletswyddau diogelu

O dan Strategaeth Gwaith Ieuencid Cymru (2019), dylai gweithwyr ieuencid, gweithwyr cymorth ieuencid a gwirfoddolwyr gwaith ieuencid ddarparu amgylcheddau diogel a chefnogi datblygiad a lles pobl ifanc. Dylai amgylcheddau diogel gynnwys yr amgylcheddau ffisegol a rhithwir, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol lle y mae pobl ifanc yn treulio eu hamser. Dylai gwaith ieuencid ganolbwytio ar weithgareddau dargyfeiriol ac ymyrraeth gynnar gan weithio gyda phobl ifanc i atal neu i leihau'r tebygolrwydd o ymglymiad statudol, gan gynnwys cyswllt â'r system cyfiawnder ieuencid. Dylai gweithwyr ieuencid, gweithwyr cymorth ieuencid a gwirfoddolwyr gwaith ieuencid fod â phresenoldeb gweladwy yn y gymuned ar adegau ac mewn lleoliadau nad yw asiantaethau eraill yn eu cyrraedd. Mae dyletswydd arnynt i roi gwybod am eu pryderon diogelu i wasanaethau plant.

Mae gweithwyr ieuencid, gweithwyr cymorth ieuencid a gwirfoddolwyr gwaith ieuencid yn fedrus wrth sefydlu trafodaeth gyfeillgar â phobl ifanc a datblygu perthynas â nhw. Dylent fod yn fedrus wrth gydbwyso'r tensiwn rhwng diogelu'r bobl ifanc a chynnal perthynas â nhw. Felly, mae'n rhaid i weithwyr ieuencid, gweithwyr cymorth ieuencid a gwirfoddolwyr gwaith ieuencid sicrhau eu bod yn glir ac yn dryloyw gyda phobl ifanc ynghylch eu dyletswyddau amddiffyn a diogelu plant. Mae hyn yn cynnwys sicrhau nad yw pobl ifanc yn cael eu rhoi mewn mwy o berygl o niwed pan fydd gwybodaeth yn cael ei rhannu ag asiantaethau eraill. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan mai gweithwyr ieuencid neu weithwyr cymorth ieuencid yw'r prif ymarferydd ar gyfer person ifanc sy'n profi camfanteisio troseddol. Yn yr achosion hyn, mae'n rhaid i'r gweithiwr ieuencid neu'r gweithiwr cymorth ieuencid gael mynediad at adnoddau a hyblygrwydd priodol fel y gallant ddiogelu'r person ifanc a monitro lefelau'r risg cyfnewidiol.

Dylai gweithwyr ieuencid, gweithwyr cymorth ieuencid a gwirfoddolwyr gwaith ieuencid greu amgylchedd diogel i bobl ifanc, fel eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn datgelu'r hyn y mae'n digwydd iddynt. Dylent fynd i'r afael â phryderon y person ifanc ynghylch y posibilrwydd o gael ei arestio, ei roi o dan drefniadau amddiffyn plant neu drefniadau plentyn mewn angen a'r effaith bosibl ar eu rhieni a'u brodyr a'u chwiorydd. Dylai gweithwyr ieuencid a gweithwyr cymorth ieuencid ddefnyddio'r wybodaeth a roddir iddynt i ddatblygu darlun am fannau problemus, cyflawnwyr neu amheuaeth o gamfanteisio troseddol. Mae'n rhaid iddynt gael mynediad at systemau i gofnodi'r

wybodaeth hon a'i lledaenu i asiantaethau eraill. Mae'n rhaid gwneud hyn yn unol â hawliau'r person ifanc a'r hawl i ddiogelu.

Arwyddion rhybuddio ar gyfer gweithwyr ieuenctid

Mae amrywiaeth o ffactorau risg ychwanegol y dylai gweithwyr ieuenctid, gweithwyr cymorth ieuenctid a gwirfoddolwyr gwaith ieuenctid fod yn effro iddynt.

Ar y lefel unigol, dylai gweithwyr ieuenctid, gweithwyr cymorth ieuenctid a gwirfoddolwyr gwaith ieuenctid fod yn wiliadwrus rhag newidiadau mewn ymddygiad. Gall y newidiadau hyn gynnwys aros allan yn hwyr, bod â nifer o ffonau symudol, newid grwpiau cyfoedion a/neu fod ag eiddo newydd neu ag arian. Gallant hefyd arddangos ymddygiadau heriol yn yr ysgol a'r addasiad cymharol ddiweddar lle y mae pobl ifanc yn cael eu hannog i ymddwyn yn dda er mwyn peidio â thynnu sylw atynt eu hunain. Felly, dylai gweithwyr ieuenctid fod yn effro i bobl ifanc oedd yn ansefydlog o'r blaen sy'n dod yn ddisgyblion model. Dylent fod yn chwilfrydig ynghylch pam mae'r newidiadau hyn wedi digwydd.

Mae dyletswydd ar weithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid i gefnogi pobl ifanc i gael mynediad at gyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Dylai hyn gynnwys diogelu pobl ifanc yn ystod cyfnodau pontio addysg: ysgol gynradd i ysgol uwchradd (10 neu 11 oed), ysgol uwchradd i goleg addysg bellach (16 oed) a choleg addysg bellach i addysg uwch (18 oed), cyflogaeth, neu hyfforddiant. Mae hefyd yn cynnwys pontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion. Mae hyn yn digwydd yn 16 oed ar gyfer gwasanaethau iechyd a 18 oed ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Wrth wneud hynny, dylai gweithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid fabwysiadu diogelu pontio i ddiogelu pobl ifanc i fod yn oedolion.

Ar y lefel rhyngpersonol, gall gweithwyr ieuenctid, gweithwyr cymorth ieuenctid a gwirfoddolwyr gwaith ieuenctid sylwi ar ddifrod i gartref y person ifanc. Gall camfanteiswyr 'gicio'r drws i lawr' (cyfweliad â rhiant) i fygwth neu ddychryn y person ifanc, ei frodyr a'i chworydd neu ei rieni. Dylai gweithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid ymgysylltu â brodyr a chworydd iau oherwydd gallent fod mewn mwy o berygl o brofi camfanteisio troseddol. Gall pobl ifanc sydd heb unrhyw deulu neu gysylltiadau â'r gymuned leol fod yn arwydd eu bod wedi cael eu masnachu i'r ardal.

Ar lefel gymunedol, mae gweithwyr ieuenctid, gweithwyr cymorth ieuenctid a gwirfoddolwyr gwaith ieuenctid mewn sefyllfa ddelfrydol i arsylwi pobl ifanc a'u perthynas â'u cyfoedion. Dylent fod yn effro i reoli perthnasoedd â chyfoedion hŷn neu oedolion neu os oes gan berson ifanc ofn unigolion, grwpiau neu leoedd. Mae hyn yn cynnwys bod yn wiliadwrus rhag anafiadau corfforol anesboniadwy neu bobl ifanc sy'n annelwig ynghylch yr hyn a ddigwyddodd. Efallai y byddant yn osgoi rhai meysydd neu ddim eisiau cael eu gweld yn siarad â gweithwyr ieuenctid neu weithwyr cymorth ieuenctid. Dylai gweithwyr ieuenctid, gweithwyr cymorth ieuenctid a gwirfoddolwyr gwaith ieuenctid hefyd fod yn effro i ddefnyddio canabis fel bachyn i gamfanteisio'n droseddol ar blant. Er nad yw defnyddio canabis yn ddangosydd o gamfanteisio troseddol ar blant efallai y bydd rhai pobl ifanc yn cael cyffuriau 'ar dicio' i'w twyllo i gaethiwed dyled.



Gwaith ieuenctid: canllawiau polisi ac ymarfer

Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol Cymru (2019)

Mae Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru (2019) yn ategu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n nodi bod gwasanaethau ieuenctid yn hawl gyffredinol a ddarperir gan asiantaethau statudol neu wirfoddol. Dylai gweithwyr ieuenctid fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar hawliau a chynnwys cyfleoedd wedi'u cynllunio a rhai heb eu cynllunio i weithio gyda phobl ifanc. Ei nod yw darparu amgylcheddau diogel a chefnogi datblygiad a lles pobl ifanc yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth wedi'i thargedu a darpariaeth gyffredinol. O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i ymgymryd â gwaith ataliol. Er enghraifft, mae Adran 15 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu neu gefnogi'r ddarpariaeth o wasanaethau sy'n hyrwyddo magwraeth pobl ifanc er mwyn atal cyswllt â'r system cyfiawnder troseddol.

Pwrpas gwaith ieuenctid fel y'u nodir yn y strategaeth yw

- Mae'n rhaid i wasanaethau ieuenctid hyrwyddo ac annog cyfleoedd i bob person ifanc gan helpu i wella eu cyfleoedd mewn bywyd drwy gefnogi pobl ifanc trwy newidiadau sylweddol yn eu bywyd.
- Mae'n rhaid i weithwyr ieuenctid weithio gyda 'sgiliau, adnoddau ac amser' pobl ifanc.
- Galluogi pobl ifanc i'w cadw eu hunain yn ddiogel.

Gall ddigwydd mewn amrywiaeth o leoliadau fel ysgolion, y system cyfiawnder ieuenctid neu mewn canolfannau cymunedol. Gall ddigwydd hefyd trwy waith allgymorth, gwaith ar y stryd neu waith symudol. Gall gynnwys gwaith sy'n cael ei dargedu neu rhoi gwybodaeth anffurfiol naill ai un i un neu mewn grwpiau.

Mae gwaith ieuenctid yng Nghymru yn cael ei danategu trwy bum colofn: Addysgol, Mynegiannol, Cyfranogol, Cynhwysol a Grymuso yn seiliedig ar yr wyth egwyddor o ymgysylltu gwirfoddol, grymuso, cydraddoldeb a chynhwysiant, darparu seiliedig ar hawliau, gweithio mewn partneriaeth, ymgysylltu ffurfiol neu anffurfiol, cydnabod cyfrifoldebau pobl ifanc a chwrdd â nhw lle y maent, a darparu amgylchedd diogel i gefnogi eu llesiant a'u datblygiad (Grŵp Adolygu Gwaith Ieuenctid yng Nghymru, 2018).

Deddf Dysgu a Sgiliau 2000

Gwaith ieuenctid sy'n cael ei ategu gan adran 123 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000. Mae'r Ddeddf yn nodi bod gwasanaethau ieuenctid yn cefnogi pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed i gymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant, i gael gwaith a chymryd rhan yn eu cymunedau. I wneud hyn, dylai awdurdodau lleol:

- Darparu gwasanaethau cymorth ieuenctid.
- Sicrhau darpariaeth gwasanaethau cymorth ieuenctid.

- Cymryd rhan wrth ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid.

Mae hyn yn cynnwys eu helpu i gael mynediad at wasanaethau, cefnogaeth a phrofiadau yn unol â'u hanghenion. Mae hyn yn cael ei ategu trwy'r canlynol:

- Datblygu perthnasoedd ymddiriedus rhwng pobl ifanc a gweithwyr ieuenctid.
- Cefnogi pobl ifanc i gael perthynas dda â'u cyfoedion.
- Mynediad i fannau diogel yn eu cymunedau.

Nid yw Gweithwyr Ieuenctid wedi'u cyfyngu i leoliad penodol a gallant symud rhwng gwasanaethau statudol, gwasanaethau gwirfoddol neu elusennau. Mae hyn yn golygu bod gweithwyr ieuenctid wedi'u lleoli mewn amrywiaeth o wahanol asiantaethau, gan gynnwys gwasanaethau statudol ac anstatudol. Mae Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cyngor Cymru (CWVYS) yn cynrychioli'r sector gwaith ieuenctid ac yn cefnogi datblygiad strategol a gweithredol eu gwaith yn rhagweithiol.

Iechyd

Mae gan ymarferwyr iechyd rôl bwysig o ran adnabod ac amddiffyn pobl ifanc rhag camfanteisio troseddol. Mae angen i ymarferwyr fod yn chwilfrydig am yr hyn sydd wedi digwydd i'r person ifanc. Dylai diogelu gael ei ymgorffori mewn trefniadau arferol ar draws yr holl wasanaethau iechyd gan gynnwys Meddygon Teulu, Deintyddion, Optegwyr, Adrannau Ysbytai. Mae'n bosibl mai dim ond ychydig funudau fydd gan ymarferwyr iechyd pan fydd y plentyn yn teimlo'n ddigon diogel i ofyn am help neu ei dderbyn. Dylai ymarferwyr fod yn ymwybodol, er bod y rhan fwyaf o bobl ifanc yn destun camfanteisio troseddol gan ddiethriaid neu gyfoedion, bod rhai yn profi camfanteisio gan aelodau o'r teulu, er enghraifft ewythrod, cefndryd neu frodyr a chwiorydd. Felly, dylent ystyried siarad â phobl ifanc o dan 16 i ffwrdd o'u perthnasau. Os oes amheuaeth bod camfanteisio ar bobl ifanc dros 16 oed yn digwydd, dylai ymarferwyr ddefnyddio ciwbiclau preifat fel na all pobl eraill eu clywed. Serch hynny, mae'n bosibl na fydd rhai pobl ifanc yn barod i ofyn am gymorth neu ei dderbyn. Fodd bynnag, gall profiad cadarnhaol eu gwneud yn fwy tebygol o ofyn am neu dderbyn cymorth ar ymweliadau gofal iechyd dilynol.

Rôl diogelu

Gan dynnu ar negeseuon allweddol o ganllawiau polisi ac ymarfer a chanfyddiadau'r ymchwil, mae gan ymarferwyr addysg amrywiaeth o rolau a chyfrifoldebau sydd â'r nod o ddiogelu plant a phobl ifanc. O dan Ddeddf Llesiant Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014, mae'n rhaid i ymarferwyr iechyd weithio gydag awdurdodau lleol a sefydliadau eraill i wella'r canlyniadau llesiant i bobl ifanc. Mae'r Ddeddf yn cryfhau'r pŵer diogelu ac yn sail iddo y mae ymagwedd hawl plentyn lle y mae gan bobl ifanc hawl i:

- Gwneud penderfyniadau am eu gofal a'u cymorth.
- Asesu gwybodaeth a chynghor.
- Derbyn asesiad cymesur sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Derbyn dull ataliol o ymdrin â'u hanghenion gofal a chymorth.

O dan y Ddeddf hon, mae'n rhaid integreiddio darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol lle y mae'n hyrwyddo llesiant pobl ifanc a/neu ofalwyr. Mae hyn yn golygu gosod pobl ifanc wrth wraidd y system, gweithio mewn partneriaeth â nhw a chynnig y cymorth cywir ar yr adeg iawn i atal eu hanghenion rhag cynyddu. Mae'r gwaith hwn yn cael ei arwain gan fyrdau iechyd rhanbarthol. Felly, mae'n rhaid i ymarferwyr iechyd weithio gydag awdurdodau lleol i asesu anghenion gofal a chymorth pobl ifanc yr amheuir eu bod yn dioddef camfanteisio troseddol. Rhaid iddynt gydweithredu a darparu gwybodaeth i awdurdodau lleol pan ofynnir iddynt oni bai bod hyn yn mynd yn groes i'w dyletswyddau eu hunain.

Ar lefel unigol, mae'n rhaid i ymarferwyr iechyd roi gwybod i'r awdurdod lleol am berson ifanc os yw'n amau eu bod yn profi camfanteisio troseddol. Felly, mae angen i ymarferwyr iechyd gael mynediad at hyfforddiant priodol i'w helpu i nodi dioddefwyr posibl camfanteisio. Mae bod â staff sy'n gyfrifol am ddiogelu yn golygu y gallant gynnal cysylltiadau â gwasanaethau a sefydliadau lleol a chenedlaethol arbenigol. Mae hyn yn helpu prosesau atgyfeirio a chynnig y cymorth cywir ar yr adeg iawn. Fodd bynnag, dylai pob ymarferydd iechyd fod yn ymwybodol o'r gofal a'r cymorth sydd ar gael yn eu rhanbarth, gan gynnwys gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal gyda'r nod o

atal anghenion gofal a chymorth. Er enghraifft, dylai nyrsys ysgol godi ymwybyddiaeth ymhlith staff addysgu a rhieni ynghylch camfanteisio a'r arwyddion rhybuddio.

Ar lefel gymunedol, rhaid i ymarferwyr iechyd gyfrannu at MACE a thrafodaethau a chyfarfodydd strategaeth amlasiantaeth. Wrth i'r model camfanteisio troseddol ar blant addasu i ymatebion y gwasanaeth, mae rhannu gwybodaeth am gyflwyniadau ac anafiadau cleifion yn hanfodol ar gyfer llunio arferion diogelu a datblygu darpariaeth gwasanaeth:

“Mae'n debyg bod llawer iawn o bobl yn meddwl amdano yn nhermau yr hyn y maent yn ei weld ar y newyddion yn Llundain neu'r enghreifftiau mwy nodweddiadol ohono, nad yw'n berthnasol i'r rhan fwyaf ohono ac felly, [ni fyddent] yn meddwl amdano yn yr achosion mwy cynnil”
(Ymgynghorydd)

Mae'n rhaid sefydlu systemau sy'n galluogi ymarferwyr iechyd i gael gafael ar wybodaeth a'i rhannu, cyn gynted â phosibl. Mae'n rhaid i ymarferwyr iechyd ddeall pa wybodaeth y gellir ei rhannu o dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am gefndir y person ifanc, ei deulu a ble mae'n byw. Mae hyn yn helpu i ddarparu cefnogaeth sy'n sensitif o ran amser.

Arwyddion rhybuddio ar gyfer ymarferwyr iechyd

Mae amrywiaeth o ffactorau risg ychwanegol y dylai ymarferwyr iechyd fod yn effro iddynt (Ffigur 8). Mae'r rhain yn cynnwys:

- Diffyg gwybodaeth am ble maent yn byw neu'n mynd i'r ysgol.
- Efallai y bydd plant a phobl ifanc yn cael eu hyfforddi ynglŷn â'r hyn i'w ddweud. Mae'n bosibl y byddant yn ei chael hi'n anodd cofio eu stori, bod ganddynt anghysondebau neu bydd gwybodaeth ar goll.
- Anafiadau heb eu esbonio, symptomau annelwig, hunan-niweidio a/neu drawma meddyliol, corfforol neu rywiol
- Heb gofrestru gyda meddyg teulu.
- Wedi cael symud sawl gwaith yn lleol, yn genedlaethol neu yn rhyngwladol.

(Canllaw ymarfer Cymru gyfan ar gyfer diogelu plant a allai gael eu masnachu, 2019c)

Gall diffyg cysylltiadau lleol gynnwys heb fod wedi'i gofrestru gyda meddyg teulu neu gall amharoddrwydd i roi cyfeiriad cartref fod yn arwydd rhybudd ar gyfer camfanteisio troseddol:

“Felly, dyweder bod llythyr rhyddhau, nid oes ganddyn nhw gyfeiriad penodol mewn gwirionedd. Gallwn ofyn gyda chwestiynau, felly mae'n fater o ddarganfod a oes ganddynt unrhyw incwm budd-daliadau yn dod i mewn, ac os nad oes ganddynt, dim ond pethau felly ydyw, mae'n darganfod y baneri bach coch hynny mewn gwirionedd”
(Nyrs arbenigol)

Gellir defnyddio sawl strategaeth i feithrin cyfathrebu â phobl ifanc fel sicrhau bod ganddynt ymarferydd iechyd ymroddedig yn ystod yr ymweliad. Bydd hyn yn eu helpu i ddatblygu trafodaeth gyfeillgar a sefydlu ymddiriedaeth. Yn hytrach na mabwysiadu strategaeth 'Gofyn a Gweithredu', efallai y bydd pobl ifanc yn fwy tebygol o gwblhau arolwg byr. Dylai'r arolwg fabwysiadu fformat

ticio blwch a chynnwys ychydig o gwestiynau yn unig. Pan fydd pobl ifanc yn cael eu derbyn i'r ysbyty, dylid defnyddio cyfrineiriau mynediad a/neu fesurau diogelwch i atal camfanteiswyr rhag cael mynediad at y person ifanc:

“Gallwch weld newid yn eu hymarweddiad bryd hynny, oherwydd yn sydyn maen nhw'n ôl wedi'u cysylltu â phwy bynnag roedden nhw'n gysylltiedig â nhw, a dydyn nhw eisiau siarad â chi mwyach”

(Nyrs)

Mae'n rhaid i ymarferwyr iechyd fod yn ymwybodol y gallai camfanteisio geisio atal pobl ifanc rhag datgelu am y camfanteisio.

Ffigur 8: Arwyddion rhybuddio ar gyfer ymarferwyr iechyd



Warning signs

Physical injuries



Self-inflicted punch injuries

This can be the precursor to escalating violence.



Violent attacks

Young people may be subjected to violent attacks, including being beaten with metal implements, stabbed or slashed in the face. Young people may not disclose this to parents and/or health practitioners.



Taxing

Taxing is used as a form of control. Young people who have 'done wrong' may be marked or injured as a lesson to others e.g., having their fingernails ripped out.

Mental health



Traumatised

Young people are forced to stay in filthy conditions with no food or clean clothing, far from home under constant threats of violence.



Violence towards others

Young people may be manipulated, forced or coerced into inflicting violence on others.



Hoplessness

"[he's] telling me it's never going to work for him, that he just wants to die. He's either going to be in prison or two options - prison or dead. He can't see another option"
(Parent interview).



Addiction

Young people may use alcohol or drugs as a way of dealing with what is happening to them.

Sexual injuries



Plugging

Young people are forced to hide drugs internally wrapped in kinder eggs, balloons, condoms, or latex gloves. Some exploiters hold young people down while they hide or remove drugs from the young person's body.



Sexual violence or abuse

Sexual violence and abuse is used as a form of control. Exploiters may film a young person being raped so they can use this film to gain their silence. Boys may be more reluctant to disclose sexual violence.

Parent mental health



Threats of violence

Parents may be threatened by the people exploiting their child. They may be frightened about telling anyone in case this makes things worse for their child or their other children.



Impact

The impact of caring for a criminally exploited child can have a negative impact on parental mental health and their ability to cope with the situation.



Child to parent violence

Parents may be subjected to violent attacks from their child. Parents may be embarrassed, ashamed or frightened to seek help and support.

Defnyddio canabis a chamfanteisio troseddol ar blant

Mae'n bosibl y caiff canabis ei ddefnyddio fel ffordd i fachu pobl ifanc i fod yn rhan o gamfanteisio troseddol oherwydd caethiwed dyled. Gall hyn olygu rhoi cyffuriau am ddim i ddefnyddwyr presennol, y term am hyn yw '*strapping*' neu '*on tick*'. Fel arall, mae camfanteiswyr yn targedu pobl ifanc nad ydynt yn gallu fforddio prynu canabis. Mae'r bobl ifanc hyn yn cael eu paratoi trwy eu hawydd i ymuno â'u cyfoedion a bod yn rhan o'r grŵp. Mae delwyr cyffuriau yn ychwanegu cyfraddau llog uchel at y ddyled hon. Pan na all defnyddwyr ad-dalu, rhoddir dewis iddynt rhwng cael eu brifo'n ddifrifol neu weithio i dalu eu dyled trwy ddelio cyffuriau. Felly, mae'n rhaid i ymarferwyr iechyd nodi a mynd i'r afael â materion camddefnyddio sylweddau yn gynnar. Dylent ddeall camddefnyddio sylweddau a bod yn ymwybodol o ddarparwyr gwasanaethau lleol fel y gallant wneud atgyfeiriadau yn gyflym.

Iechyd: Canllawiau Polisi ac Ymarfer

Yn ogystal â'r cyfrifoldebau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, dylai ymarferwyr iechyd gadw at Gynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau 2019-22. O dan y cynllun hwn, dylid cynnig y cymorth mwyaf priodol i bobl ifanc yn seiliedig ar eu hanghenion. I wneud hyn, mae'n rhaid i iechyd a gofal cymdeithasol weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill.

Mae'n rhaid i wasanaethau yng Nghymru fabwysiadu dull iechyd cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar y cleient, sy'n seiliedig ar gryfderau, tuag at gamddefnyddio sylweddau (gan gynnwys cyffuriau ac alcohol). Mae hyn yn golygu mynd i'r afael â lleihau niwed, atal a thriniaeth. Y nod yw lleihau niwed a hyrwyddo adferiad tymor hir. O dan y cynllun hwn, mae'r meysydd blaenoriaeth yn cynnwys:

- Ymateb i broblemau iechyd meddwl sy'n digwydd ar yr un pryd â chamddefnyddio sylweddau.
- Gwella mynediad at gymorth a thriniaeth.
- Cefnogi teuluoedd/gofalwyr camddefnyddwyr sylweddau.

Tai

Mae siawns y bydd pobl ifanc yn fwy agored i gamfanteisio troseddol pan fydd pobl ifanc yn byw yn annibynnol gan fod hynny'n gallu cynyddu ffactorau risg. Gall anawsterau tai ddigwydd o ganlyniad i chwalfa teulu neu ofal maeth neu oherwydd statws person ifanc, fel ceiswyr lloches ar ei ben ei hunan neu'r rhai sydd yn profi digartrefedd neu sydd wedi'i brofi. Efallai y bydd pobl ifanc yn teimlo'n unig, yn ynysig, ac yn ei chael hi'n anodd goroesi ar incwm cyfyngedig. Mae camfanteiswyr yn cynnig 'arian hawdd' i bobl ifanc. Maent yn cyfeillio â nhw i gael mynediad i'r eiddo a/neu i sefydlu perthynas amhriodol â phobl ifanc gyda'r addewid o gyfoeth, statws a 'theulu' newydd.

O dan y canllawiau statudol, Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl (2018), mae gan ymarferwyr tai ddyletswydd i ddiogelu pobl ifanc. Dylai ymarferwyr tai gyflawni'r rôl hon yn annibynnol ac fel rhan o ymateb amlasiantaethol mwy sy'n mynd i'r afael â holl anghenion y person ifanc, nid camfanteisio troseddol yn unig.

Rôl diogelu

Dylai pob ymarferydd sy'n chwarae rôl mewn cymdeithasau tai a thai â chymorth gael eu hyfforddi mewn diogelu. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth a dealltwriaeth o sefydlu perthynas amhriodol, camfanteisio'n droseddol ar blant a chogio. Mae hyn yn cynnwys plymwyr, trydanwyr, tasgryn a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymweld â chartrefi i wneud gwaith. Mae'n rhaid i ymarferwyr tai ddefnyddio ystod o offer a strategaethau diogelu megis sicrhau nad yw pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal a phobl ifanc sydd wedi gadael y carchar yn ddiweddar yn cael eu lletya yn agos at ei gilydd:

“Maen nhw'n targedu'r bobl ifanc oherwydd eu bod nhw'n gwybod bod naw o bobl ifanc, pobl ifanc agored i niwed yn byw yno ar unrhyw un adeg”
(Ymarferydd Tai)

Gall hefyd olygu gwella mesurau diogelu drwy gartrefu pobl ifanc sydd wedi'u targedu gan gamfanteiswyr yn agosach at swyddfa'r rheolwr neu osod mwy o fesurau diogelwch ar ffenestri a thu allan i'w cartrefi.

Ar lefel unigol, dylai pobl ifanc gael eu haddysgu am ddefnyddio'r rhyngwyd mewn modd diogel. Pan fydd prosiectau tai yn darparu mynediad am ddim i'r rhyngwyd, dylai ymarferwyr tai wybod sut i ddiogelu pobl ifanc ar-lein a deall meithrin perthynas amhriodol ar-lein a sut mae hyn yn digwydd. Dylai ymarferwyr tai siarad â phobl ifanc am gamfanteisio a meithrin perthynas amhriodol. Mae hyn yn helpu i ddatblygu perthnasoedd a sianeli cyfathrebu fel bod pobl ifanc yn teimlo eu bod yn gallu ymwneud â chamfanteisio troseddol posibl arnynt eu hunain neu ar eu cyfoedion.

Gall pobl ifanc fod yn amharod i ddweud wrth ymarferwyr tai eu bod yn profi camfanteisio rhag ofn y rhoddir y bai arnynt, yn enwedig os ydynt wedi siarad â chamfanteiswyr, eu gwahodd i mewn i'r eiddo neu wedi gofyn am help i ennill arian. Mae'n bosibl y bydd pobl ifanc yn poeni y byddant yn colli eu tenantiaeth. Pan fydd pobl ifanc yn cael eu hadleoli y tu allan i'r ardal, dylai ymarferwyr tai fod yn ymwybodol y gallai rhieni gael eu bygwth a'u brawychu tra bod y camfanteiswyr yn ceisio dod o hyd i'r person ifanc:

“Rwy'n crynu y tu mewn, yn crynu. Felly dyna beth es i drwyddo. Wrth fynd adref, yn y gwaith, roedden nhw'n gwybod lle'r oeddwn i'n byw oherwydd mai dyna be roedden nhw”
(Cyfweliad â rhiant)

Mae'n bosibl y bydd rhieni a phobl ifanc yn ofni datgelu camfanteisio troseddol oherwydd yr ôl-ffeithiau os ydynt yn 'snitchio'.

Mae gan bawb hawl i gael eu diogelu rhag bygythiadau, trais a brawychiad, waeth beth fo'u hoedran. Dylai fod gan sefydliadau tai Arweinydd Diogelu Dynodedig (DSL) a all godi ymwybyddiaeth a chynnig cymorth a chefnogaeth i ymarferwyr tai. Dylai'r DSL ddatblygu a chynnal cysylltiadau â gwasanaethau a sefydliadau lleol a chenedlaethol arbenigol i gael rhagor o gymorth a chefnogaeth. Mae'n rhaid iddynt gael mynediad at wybodaeth gyfredol yn eu hardaloedd, fel eu bod yn gwybod sut mae pobl ifanc yn cael eu targedu a pha weithgareddau y maent yn eu gwneud oherwydd eu bod yn cael eu perswadio, eu cymell neu eu gorfodi i'w cyflawni.. I wneud hyn, rhaid iddynt fod yn bresennol a chyfrannu at ymatebion amlasiantaeth.

Ar lefel gymunedol, dylai ymarferwyr tai sefydlu systemau sy'n galluogi rhannu gwybodaeth a chudd-wybodaeth yn effeithlon gydag asiantaethau eraill. Gellir defnyddio hyn i atal ansefydlogrwydd tai rhag gwaethygu a risg y person ifanc o gael ei baratoi at gamfanteisio troseddol. Gall asiantaethau eraill ei ddefnyddio hefyd i ddiogelu ac amharu ar gamfanteisio troseddol.

Ffactorau risg tai

Mae amrywiaeth o ffactorau risg ychwanegol y dylai ymarferwyr tai fod yn effro iddynt.

Pobl ifanc â phrofiad gofal

Pan fydd pobl ifanc yn ystyried bod camfanteiswyr yn gofalu amdanynt a bod yn 'deulu' iddynt, gallant ystyried bod y buddion yn fwy na risgiau camfanteisio troseddol. Gall pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal gael eu targedu benodol, yn enwedig y rhai sy'n profi gofal maeth neu achosion eraill o leoliadau oherwydd gallai hyn olygu bod yn rhaid iddynt aros mewn llety â chymorth neu dros dro:

Pan fydd plentyn neu berson ifanc o dan 18 oed yn cael ei remandio neu ei ddedfrydu i'r ddalfa, mae'r Gwasanaeth Dalfa Ieuenctid (YCS) yn penderfynu ble y dylid ei leoli. Bydd hyn naill ai mewn canolfan hyfforddi ddiogel, cartref diogel i blant neu mewn sefydliad troseddwr ifanc dan 18 oed (ar gyfer dynion ifanc yn unig).

Pan fydd person ifanc ar remand i lety cadw ieuenctid o dan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Ddeddfrydu a Chosbi Troseddwr (LASPOA) 2012, ystyrir ei fod yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Bydd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn gweithio gyda'r Tîm Lleoliadau Dalfa Ieuenctid. (Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, 2017). Bydd hyn yn seiliedig ar asesiad o anghenion y person ifanc, y llety sydd ar gael, a lles pennaf y person ifanc.

Gall pobl ifanc gael eu lleoli mewn tri math o lety diogel:

- Cartref Diogel i Blant neu Ganolfan Hyfforddi Ddiogel. Bydd y lleoliad yma yn seiliedig ar anghenion cymorth, oedran, aeddfedrwydd a gallu'r person ifanc i weithredu mewn grwpiau mawr.
- Youth Offending Institute. Bydd y lleoliad yn seiliedig ar angen y person ifanc i gael mynediad at ymyriadau fel, Life Minus Violence, lle y bydd angen iddynt drosglwyddo i ddalfa oedolion ac a ydynt yn aeddfed ac yn wydn.

Dylai pobl ifanc Cymru gael eu lleoli yng Nghymru.

Pobl ifanc sy'n dod yn 18 oed

Yn ôl trosolwg Tîm Lleoli'r Gwasanaeth Dalfa Ieuenctid o weithdrefnau gweithredol (Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, 2017):

- Gorchymynion Cadw a Hyfforddi. Pan fydd pobl ifanc yn troi'n 18 oed, dylent aros yn yr ystâd dalfa ieuencid oni bai ei bod er eu lles pennaf symud i'r ystâd dros 18 oed.
- Dedfrydau eraill. Pan fydd plant a phobl ifanc yn troi'n 18 oed o dan ddedfrydau eraill, byddant yn cael eu trosglwyddo i ystâd oedolion ifanc neu oedolion. Dylid datblygu cynllun pontio yn seiliedig ar les pennaf y person ifanc.

Pan fydd ffactorau risg y person ifanc yn awgrymu na ddylai symud i ystâd oedolion ifanc neu oedolion, cynhelir cyfarfod amlddisgyblaethol i benderfynu pa gamau sydd er eu lles pennaf. I gael rhagor o wybodaeth gweler:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/647093/Placement_Guidance_Sept_2017_YCS.pdf

Mae gwybodaeth bellach am leoliadau diogel i'w chael yma:

<https://www.gov.uk/guidance/placing-young-people-in-custody-guide-for-youth-justice-practitioners>

5. Ynghylch pontio ac ailsefydlu

Mae'n rhaid i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid wneud cynllun sydd wedi'i deilwra i anghenion y person unigol i'w helpu i symud o un gwasanaeth neu i un ardal un arall. Er enghraifft:

- Symud o un lleoliad i un arall
 - O un ardal leol i un arall
 - O ddarpariaeth plant i ddarpariaeth oedolion
 - O lety diogel i'w cartrefi
- Symud o un gwasanaeth i un arall
 - I mewn gwasanaethau oedolion
- Iechyd
 - Darpariaeth iechyd i wasanaethau cymunedol i sicrhau gwasanaethau diogel
 - Gwasanaethau anabledau dysgu
 - Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed
- Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth
 - O brif-ffrwd i ddarpariaeth arall
 - O'r ysgol i goleg addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth
- Llety
 - Pobl ifanc sydd wedi cwblhau eu gorchymyn cyfiawnder ieuencid
 - Pobl ifanc sydd wedi cwblhau eu gorchymyn sicredig ond heb gwblhau eu dedfryd.

Casgliad

Mae camfanteisio troseddol ar blant yn cyfeirio at bobl ifanc a phobl ifanc yn cael eu perswadio, eu gorfodi neu eu cymell i gyflawni gweithgareddau troseddol gan unigolion neu grwpiau mwy pwerus. Er bod plant a phobl ifanc sydd â bregusrwyddau presennol mewn mwy o berygl o fod yn destun camfanteisio troseddol, mae'r bregusrwyddau hyn yn rhai eang. Ar y lefel unigol, mae plant a phobl ifanc sydd â chyfalaf cymdeithasol cyfyngedig, anawsterau gartref, anghenion dysgu ychwanegol a/neu y rhai sy'n derbyn gofal mewn perygl penodol. Ar y lefel ryngpersonol, caiff plant a phobl ifanc sydd ag anawsterau gartref eu targedu'n aml. Mae'n bosibl bod yr anawsterau hyn yn deillio o'r heriau sy'n gysylltiedig â magu pobl yn eu glasoed, problemau gyda magu plant fel iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau, neu ffactorau eraill fel esgeuluso, camdriniaeth, rhieni'n gwahanu neu absenoldeb rhieni. Ar lefel cymunedol, tloidi, sefydlogrwydd llety a'r ardal y mae'r plant a'r pobl ifanc yn byw ynnddi yn gallu cynyddu'r rhagduddiad i fod yn destun camfanteisio troseddol. At hyn, mae'n bosibl y bydd plant a phobl ifanc yn cael eu paratoi gan aelodau eraill o'r teulu, gan gyfoedion, gan oedolion lleol neu bobl nad ydynt yn eu hadnabod naill ai yn bersonol neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Efallai y byddant yn dioddef o wahanol fathau ar gamfanteisio, gan gynnwys ariannol, rhywiol neu camfanteisio troseddol. Mae hyn yn creu heriau unigryw i ymarferwyr.

Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn, mae Pecyn Cymorth Diogelu Cymhleth Cymru wedi'i gyd-gynhyrchu gyda phobl ifanc, rhieni ac ymarferwyr sydd â phrofiad uniongyrchol o gamfanteisio'n droseddol ar blant. Yn sail i'r broses roedd canfyddiadau o astudiaeth ymchwil ehangach a oedd yn archwilio sut beth yw camfanteisio troseddol ar blant yng Nghymru a pha ymagweddau ac ymyriadau oedd y rhai mwyaf effeithiol. Dangosodd canfyddiadau bod camfanteisio troseddol ar blant yn wahanol mewn ardaloedd gwahanol, yn dibynnu ar fodolau o gyflenwi cyffuriau, seilwaith lleol, ac ymatebion gwasanaethau oedd eisoes yn bodoli (Maxwell a Wallace, 2021). Ond er gwaethaf y model o gamfanteisio ar blant (Harding, 2020), mae ymatebion effeithiol yn seiliedig ar weithio amlasiantaeth effeithiol ac effeithlon sy'n cynnwys rhieni ar bob cam wrth rannu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan gofio y tueddiad sy'n dod i'r fei i dargedu “

Gan ailadrodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014), mae gan bob ymarferydd sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc rôl a chyfrifoldeb dros ddiogelu. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau hyblyg sydd â'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r offer priodol i weithio gyda phlant a theuluoedd sy'n profi camfanteisio troseddol. Datblygwyd y pecyn cymorth hwn i lywio, cefnogi a gwella ymatebion ymarferwyr yn seiliedig ar ganfyddiadau ymchwil o Gymru. Dim ond os ydym yn gweithio gyda'n gilydd — rhieni ac ymarferwyr - y gallwn amddiffyn ein plant a'n pobl ifanc rhag y bobl sy'n cam-fanteisio'n droseddol arnynt.

Cyfeirnodau

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Ar gael yn:

<https://www.legislation.gov.uk/anaw/2018/2/contents>

All Party Parliamentary Group on Runaway and Missing Children and Adults [APPG]. (2017).

Briefing report on the roundtable on children who go missing and are criminally exploited by gangs. 26 Hydref 2017, Cyfrol 630, c.487.

Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan (2019a). *Diogelu plant rhag Camfanteisio Troseddol ar Blant (CCE)*. <https://www.safeguarding.wales/chi/c6/c6.p1.html>.

Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan (2020). *Diogelu plant rhag Camfanteisio Rhywiol ar Blant (CSE)*. <https://www.safeguarding.wales/chi/c6/c6.p1.html>.

Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan (2019b). *Diogelu plant sy'n mynd ar goll o'r cartref neu ofal*. <https://safeguarding.wales/chi/c6/c6.p9.html>

Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan (2019c). *Diogelu plant a allai gael eu masnachu*. <https://safeguarding.wales/chi/c6/c6.p3.html>

Andell, P. a Pitts, J. (2017). *Preventing the Violent and Sexual Victimisation of Vulnerable Gang-Involved and Gang-Affected Children and Children in Ipswich*. University of Suffolk.

Appiah, A., Baguley, S., SPACE, a Farooq, R (2021). *Making Words Matter. Attending to Language when working with children subject to or at risk of Exploitation: A Practice and Knowledge Briefing*. NWG Network, Derby, UK

Barnardos. (2014). *Guidance on child sexual exploitation, a practitioner's resource pack*. Ilford, UK.

Bonning, J. a Cleaver, K. (2020). 'There is no "war on drugs": An investigation into county line drug networks from the perspective of a London borough, *The Police Journal*.

Cardiff University (2019) *Social care law in Wales*. <https://sites.cardiff.ac.uk/childrens-social-care-law/>

Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid Caerdydd (2020). *Youth Justice Services Development Strategy 2020 – 2022*. https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Social-Services-and-Wellbeing/Children/Cardiff-Youth-Offending-Services/Documents/Youth Justice Strategy 2020_22_E.pdf

Cardiff Youth Justice Services (2022) *All our Futures: Youth Justice Services Development Strategy 2020 – 2022*. https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Social-Services-and-Wellbeing/Children/Cardiff-Youth-Offending-Services/Documents/Youth Justice Strategy 2020_22_E.pdf

-
- Centre for Homelessness (undated) *Psychologically informed environments*.
<https://www.homelessnessimpact.org/intervention/psychologically-informed-environments>
- Chard, A. (2015). *Troubled Lives. Tragic Consequences: A thematic review*. Tower Hamlets Children's Safeguarding Board.
- Child Safeguarding Practice Review Panel (2020). *It was hard to escape: Safeguarding Children at Risk from Criminal Exploitation*.
- Deddf Plant (2004). Llundain: TSO.
- Comisiynydd Plant Cymru. 2014. *Yr Hawl i Ddysgu: Cefnogi Plant a Phobl Ifanc mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion i Gyrraedd eu Potensial*.
<https://www.childcomwales.org.uk/uploads/publications/456>.
- Cymdeithas y Plant. (2019). *Counting Lives: Responding to children who are criminally exploited*. Gorffennaf 2019.
- Cornish, C. 2018. 'Keep them busy': 'warehoused' or taught skills to achieve? *Research in Post-Compulsory Education* 23(1), pp. 100-117.
- County Lines Pathfinder (2021). *The County Lines Pathfinder 20-21 Annual Report. Norfolk, Suffolk, Essex and Cambridgeshire*. [https://yjresourcehub.uk/images/County Lines Pathfinder/County Lines Pathfinder Progress Report 20-21.pdf](https://yjresourcehub.uk/images/County%20Lines%20Pathfinder/County%20Lines%20Pathfinder%20Progress%20Report%2020-21.pdf).
- CPS (2021) *Modern Slavery, Human Trafficking and Smuggling*. Available at:
<https://www.cps.gov.uk/legal-guidance/modern-slavery-human-trafficking-and-smuggling#a08>
- Crown Prosecution (2019) *Service Restorative Justice*. <https://www.cps.gov.uk/legal-guidance/restorative-justice>
- Croxton, L., Twomey, B. a Davies, T. (2020). *Missing the Point*. National Youth Advocacy Service and the Children's Society. <https://www.nyas.net/wp-content/uploads/Missing-the-Point-Report-EL-Nov.2020.pdf>
- Cullen, P., Dunworth, J., McNally, M. a Ford, S. (2020). *Criminal Exploitation/Serious Violence and County Lines – a national summary & emerging innovative practice – update 2019/20*. Uned Trais a Bregusrwydd.
- Cymorth Cymru (heb ddyddiad) *Psychologically informed environments*.
<https://www.cymorthcymru.org.uk/en/resources/psychologically-informed-environments/>
- Department for Education (2014) *Statutory guidance on children who run away or go missing from home or care*.
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/307867/Statutory_Guidance_-_Missing_from_care__3_.pdf
-

Department of Health and Social Care (2021) *Bridging the Gap: transitional safeguarding and the role of social work with adults* Bridging the gap: Transitional Safeguarding and the role of social work with adults (publishing.service.gov.uk)

Education Act 1996. <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1996/56/contents>

Education Act 2002. <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/32/contents>

Ellis, K. (2018) Contested Vulnerability: A Case Study of Girls in secure care. *Children and Youth Services Review*, 88, 156-163, 1-11.

Estyn (2021a). Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2019-2020.

https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/2020-12/ESTYN%20Annual%20Report%202019-2020_full-report.pdf

Estyn (2021b) “*Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon - Profiadau o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith disgyblion ysgolion uwchradd yng Nghymru* Caerdydd.

Firmin C, Horan J, Holmes D & Hopper G. (2019). *Safeguarding during adolescence– the relationship between Contextual Safeguarding, Complex Safeguarding and Transitional Safeguarding*. Dartington: Research in Practice, University of Bedfordshire, Rochdale Borough Council and Contextual Safeguarding Network. [safeguarding-during-adolescence-briefing_jan19_v3.pdf](https://www.researchinpractice.org.uk/safeguarding-during-adolescence-briefing_jan19_v3.pdf) (researchinpractice.org.uk)

Florence, C., Shepherd, J., Brennan, I. a Simon, T. (2011). Effectiveness of anonymised information sharing and use in health service, police, and local government partnership for preventing violence-related injury: experimental study and time series analysis. *British Medical Journal*, d3313.

Going It Alone: Essential information and advice to young people about youth homelessness and living independently (North Wales) <https://www.goingitalone.co.uk/>

Greater Manchester Police (undated) *Philomena Protocol*

<https://www.gmp.police.uk/notices/pp/philomena-protocol/>

Her Majesty’s Prison and Probation Service (2017). *Youth Custody Service Placement Team’s overview of operational procedures*.

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/647093/Placement_Guidance_Sept_2017_YCS.pdf

Llywodraeth EM (2018) *Serious Violence Strategy*, Ebrill 2018. Prydain Fawr.

Hoggett, P. 2000. *Emotional Life and the Politics of Welfare*. Basingstoke: Macmillan.

Holmes, D. a Smale, E. (2018). *Mind the Gap: Transitional Safeguarding – Adolescence to Adulthood*. Dartington: Research in Practice. <https://www.researchinpractice.org.uk/all/publications/2018/august/transitional-safeguardingadolescence-to-adulthood-strategic-briefing-2018/>

-
- Swyddfa Gartref (2017). *Child sexual exploitation: Definition and a guide for practitioners, local leaders and decision makers working to protect children from child sexual exploitation*.
- Swyddfa Gartref (2018). *Criminal Exploitation of children and vulnerable adults: County Lines guidance* [arlein]. Great Britain.
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/741194/HOCountyLinesGuidanceSept2018.pdf
- Swyddfa Gartref (2021) *Modern Slavery: National Referral Mechanism and Duty to Notify Statistics, UK Quarter 2 2021 – April to June*.
<https://www.gov.uk/government/statistics/modern-slavery-national-referral-mechanism-and-duty-to-notify-statistics-uk-quarter-2-2021-april-to-june/modern-slavery-national-referral-mechanism-and-duty-to-notify-statistics-uk-quarter-2-2021-april-to-june>
- Swyddfa Gartref (2021a) *Interim Guidance for Independent Child Trafficking Guardians (fersiwn hygyrch) (Statutory Guidance* <https://www.gov.uk/government/publications/child-trafficking-advocates-early-adopter-sites/interim-guidance-for-independent-child-trafficking-guardians-accessible-version>
- Swyddfa Gartref (2022) *Statutory Guidance for England and Wales (under s49 of the Modern Slavery Act 2015) and Non-Statutory Guidance for Scotland and Northern Ireland*.
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1051135/Modern_Slavery_Statutory_Guidance__EW__Non-Statutory_Guidance__SNI__v2.6.pdf
- Deddf Tai (Cymru) 2014*. Caerdydd: TSO.
<https://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/7/contents/enacted>
- Tai yn Gyntaf <https://www.cymorthcymru.org.uk/en/policy/housing-first/>
- Hudek, J. (2018). *Evaluation of the County Lines Project* [arlein]. JH Consulting, St Giles Trust, Missing People.
<file:///C:/Users/user/Downloads/County%20Lines%20Demonstration%20Pilot%20-%20Evaluation%20Report%20May%202018%20designed.pdf>
- Jakob, P. (2018). Multi-stressed families, child violence and the larger system: an adaptation of the nonviolent model. *Journal of Family Therapy* 40: 25-44.
- Keats, H., Maguire, N., Johnson, R. and Cockersall, P. (2012) *Psychologically informed services for homeless people* (Good Practice Guide) Southampton, GB. Communities and Local Government <https://eprints.soton.ac.uk/340022/>
- Maxwell, N. a Corliss, C. (2020). A mapping and horizon scanning review of good practice in youth violence prevention. CASCADE.
- Maxwell, N. a Wallace, C. (2021). *Child Criminal Exploitation in Wales*. CASCADE, Prifysgol Caerdydd.

-
- Maxwell, N., Doughty, J. a Wallace, C. (2020). *Developing a Supporting Separating Families Alliance: a scoping study*. CASCADE, Prifysgol Caerdydd.
- Maxwell, N., Wallace, C., Cummings, A., Bayfield, H. a Morgan, H. (2019). *A systematic map and synthesis review of Child Criminal Exploitation*. Panel Diogelu Cenedlaethol: Cymru.
- McCluskey, G., Lloyd, G., Riddell, S., Weedon, E., a Fordyce, M. (2013). *Evaluation of Education Provision for Children and Young People Educated Outside the School Setting*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
- McCluskey, G., Riddell, S., Weedon, E. 2015. Children's rights, school exclusion and alternative educational provision. *International Journal of Inclusive Education* 19(6), tt. 595-607.
- Cyfarfod Amlasiantaeth Camfanteisio ar Blant Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru (2021): Cylch gorchwyl. Heb ei gyhoeddi.
- Ministry of Justice (2019) *County Lines Exploitation Practice guidance for YOTs and frontline practitioners*. Lundain.
- Deddf Caethwasiaeth Fodern (2015). UK Parliament.
<https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2015/30/contents/enacted>
- Munn, P., and Lloyd, G (2005). Exclusion and excluded pupils. *British Educational Research Journal* 31(2) 205-221.
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2001) *The Learning Country:: A Paving Document*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
https://dera.ioe.ac.uk/5147/1/learning_country_paving_document.pdf
- Nairn, K., and Higgins, J. 2011. The emotional geographies of neoliberal school reforms: spaces of refuge and containment. *Emotion, Space and Society* 4(3), tt. 180-186.
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru Ymchwil y Senedd (2019) *Addysg Heblaw yn yr Ysgol: Briff Ymchwil*. <https://senedd.wales/Research%20Documents/19-075%20-%20Education%20Otherwise%20Than%20At%20School/19-075-Web-Welsh.pdf>
- National County Lines Coordination Centre (2021) *County Lines Strategic Assessment 2020/21*. NCLCC Silver and Bronze Intelligence.
- Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol. (2017). *County Lines Violence, Exploitation and Drug Supply 2017 National Briefing Report* [online]. Llundain: NCA. Great Britain.
<http://www.nationalcrimeagency.gov.uk/publications/832-county-lines-violence-exploitation-and-drug-supply-2017/file>
- Cyngor Dinas Casnewydd (2021) Protocol Casnewydd ar gyfer Diogelu Plant a Phobl Ifanc rhag Camfanteisio ar Blant (CE)
- NSPCC (2021) *Child protection system in Wales*. <https://learning.nspcc.org.uk/child-protection-system/wales - heading-top>
-

-
- NSPCC (2021) *Safeguarding children and child protection*.
<https://learning.nspcc.org.uk/safeguarding-child-protection>
- Nyarko, S. with the Hackney Contextual Safeguarding Team (2018). *Safety Mapping Exercise*. Contextual Safeguarding Network, University of Bedfordshire.
- Ofsted., (2018). *Protecting children from criminal exploitation, human trafficking and modern slavery: an addendum* [online]. Arolygiaeth Prawf EM, HMICFRS, Comisiwn Ansawdd Gofal. No. 180032. [Gwelwyd 16 July 2019] Available from:
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/756031/Protecting_children_from_criminal_exploitation_human_trafficking_modern_slavery_addendum_141118.pdf
- Out-of-court disposal work in youth offending teams: An inspection by HM Inspectorate of Probation and HM Inspectorate of Constabulary and Fire & Rescue Services, March 2018. <https://www.justiceinspectors.gov.uk/cjji/wp-content/uploads/sites/2/2018/03/Out-of-court-disposal-work-in-youth-offending-teams-reportb.pdf>
- Parsons, C. (2009). *Strategic Alternatives to Exclusion from School*. Stoke on Trent: Trentham.
- Pike, N., Langham, M. a Lloyd, S. (2019). *Parents' experiences of the Children's Social Care system when a child is sexually exploited*. PACE UK. <http://paceuk.info/wp-content/uploads/2020/01/Parents%E2%80%99-experiences-of-Children%E2%80%99s-Social-Care-Report-digital.pdf>
- Plastow, L., Finlay, F. and Williams, A.G. (2019), County lines: The role school nurses can play. *British Journal of School Nursing*, 14(5), <https://doi-org.abc.cardiff.ac.uk/10.12968/bjsn.2019.14.5.220>
- Power, S., and Taylor, C (2020) Not in the Classroom, but Still on the Register: Hidden Forms of School Exclusion. *International Journal of Inclusive Education* 24(8) 867-881.
- Power, S., and Taylor, C (2021) School exclusions in Wales: policy discourse and policy enactment. *Emotional and Behavioural Difficulties*
- Powys County Council (2020) *Child Exploitation Strategy 2020-2023*.
<https://en.powys.gov.uk/childexploitation>
- Robinson, G. McLean, R. a Densley, J. (2019). Working County Lines: Child Criminal Exploitation and Illicit Drug Dealing in Glasgow and Merseyside. *International Journal of Offender Therapy and Comparative Criminology*, 63(5), 694–711.
- Samaritans Cymru (2019) Exclusion from school in Wales. The hidden cost.
https://media.samaritans.org/documents/Samaritans_Cymru__Exclusion_from_school_in_Wales_-_The_hidden_cost.pdf (Accessed 29.6.20)

-
- Sloane, G., Notarianni, M., Dachi, S. Balci, M., Allen, P. a the Hackney Contextual Safeguarding Team. (2019). *Peer group mapping guidance*. Contextual Safeguarding Network, University of Bedfordshire. Peer-group-mapping-guidance.pdf (csnetwork.org.uk)
- Smith, P., a Connolly, M. 2019. Care and education. A case study: understanding professional roles and identities of teachers within a Welsh PRU. *Cylchgrawn Addysg Cymru/Wales Journal of Education* 21(1), pp. 65-88.
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru (heb ddyddiad) Gofal Cymdeithasol Cymru.
<https://safeguarding.wales>
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Caerdydd: TSO.
<https://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/contents>
- Special Needs Jungle (2016) *Teaching social context to children with autism and why it's vital for safeguarding*. <https://www.specialneedsjungle.com/teaching-social-context-to-children-with-autism-and-why-its-vital-for-safeguarding/>
- Special Needs Jungle (2021) *The new "rights-based" Additional Learning Needs system in Wales*. <https://www.specialneedsjungle.com/the-new-rights-based-additional-learning-needs-system-in-wales/>
- Spicer, J. (2021) The policing of cuckooing in 'County Lines' drug dealing: An ethnographic study of an amplification spiral, *The British Journal of Criminology*, 61(5), 1390–1406.
- Sturrock, R. a Holmes, L., (2015). *Running the Risks: The links between gang involvement and children going missing*. Gorffennaf 2015. Catch 22. Missing People.
- The Children's Society (2022) *Appropriate Language in Relation to Child Exploitation*. https://www.childrenssociety.org.uk/sites/default/files/2022-01/Child_Exploitation_Appropriate_Language_Guide_2022.pdf
- Thomson, P., and Pennacchia, J. (2014). "What's the Alternative? Effective Support for Young People Disengaging from the Mainstream." *A Literature Review for a Report of the Same Name*.
https://www.researchgate.net/publication/281451346_What's_the_alternative_Literature_review_of_alternative_education_provision_funder_The_Princes_Trust
- UK Government (undated) *Types of prison sentences: Sentences for young people*.
<https://www.gov.uk/types-of-prison-sentence/sentences-for-young-people>
- UN Convention on the Rights of the Child. Ar gael yn:
<https://www.ohchr.org/en/professionalinterest/pages/crc.aspx>
- Violence and Vulnerability Unit. (2018). County lines – a national summary and emerging best practice.
<https://www.local.gov.uk/sites/default/files/documents/County%20Lines%20National%20Summary%20-%20Simon%20Ford%20WEB.pdf>
-

Gweithdrefnau Diogelu Cymru (heb ddyddiad) *Plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o niwed*.
<https://safeguarding.wales/chi/>

Llywodraeth Cymru (2021). *Cadw dysgwyr yn ddiogel: Rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol o dan Ddeddf Addysg 2002*. Canllawiau Llywodraeth Cymru rhif 272/2021.

Llywodraeth Cymru (2015) *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*. *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*

Llywodraeth Cymru (2016) *Gweithio gyda'n gilydd i Ddiogelu Pobl*.
[https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cyfrol-i-cyflwyniad-a-throsolwg.pdf\(gov.cymru\)](https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cyfrol-i-cyflwyniad-a-throsolwg.pdf(gov.cymru))

Llywodraeth Cymru (2017) *Addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS): fframwaith gweithredu*.
<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/education-otherwise-than-at-school-framework-for-action.pdf>

Llywodraeth Cymru (2017) *Addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS): fframwaith gweithredu*.
<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/education-otherwise-than-at-school-framework-for-action.pdf>

Llywodraeth Cymru (2017) *Canllawiau Statudol i Helpu i Atal Plant a Phobl Ifanc rhag Colli Addysg*. Cylchlythyr Llywodraeth Cymru rhif: 002/2017.

Llywodraeth Cymru (2017) *Canllawiau Statudol i Helpu i Atal Plant a Phobl Ifanc rhag Colli Addysg*. Cylchlythyr Llywodraeth Cymru rhif: 002/2017.

Llywodraeth Cymru (2018). *Tai yn Gyntaf – Egwyddorion a Chanllawiau Cenedlaethol i Gymru*.
<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/egwyddorion-tai%20yn-gyntaf-canllawiau-ar-gyfer-awdurdodau-lleol.pdf>

Llywodraeth Cymru (2019) *Glasbrint Cyfiawnder Ieuencid i Gymru*.
<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-05/youth-justice-implemenation-plan.pdf>

Llywodraeth Cymru (2019) *Glasbrint Cyfiawnder Ieuencid*.
https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-05/youth-justice-blueprint_0.pdf

Llywodraeth Cymru (2019a) *Gwahardd o ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion*. Dogfen canllawiau rhif: 255/2019.

Llywodraeth Cymru (2019b) *Disgyblion sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol, 2018/19*.
<https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/pupils-educated-other-school-september-2018-august-2019-644.pdf>

Llywodraeth Cymru (2021) *Gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol o ysgolion: Medi 2019 i Awst 2020*. <https://gov.wales/permanent-and-fixed-term-exclusions-schools-september-2019-august-2020.html>

Welsh Government and Youth Justice Board for England and Wales (2015). *YOT Management Board Guidance. Guidance on effective youth offending team governance in Wales*. Llundain.
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/418164/YOT_Management_Board_guidance_Wales.pdf - :
~:text=Y%20tirwedd%20o%20Youth%20Justice%20yn%20Cymru%20has,angen%3B%20a%20Demonstrate%20more%20Persistent%20patrymau%20o%20Troseddu.

Wigmore. J. (2018). *Recognising and acting on signs of 'county lines' child exploitation. A case study*. Niche Health and Social Care Consulting.

Wilcock, A (2020). *Heads call for sixth-forms for at risk excluded pupils*. Ar gael yn: <https://www.integrated.org.uk/2020/06/26/heads-call-for-sixth-forms-for-at-risk-excluded-pupils/>

Windle, J. a Briggs, D. (2015b). 'It's like working away for two weeks': The harms associated with young drug dealers commuting from a saturated London drug market. *Crime Prevention and Community Safety*. 17, 105–119.

Windle, J., Moyle, L. and Coomber, R. (ar ddod). 'Vulnerable' kids going country: Children and young people's involvement in county lines drug dealing. *Youth Justice*.

Youth Justice Board (2013). *Modern Youth Offending Partnerships: Guidance on effective youth offending team governance in England*.
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/319291/youth-offending-partnerships-guidance.pdf

Youth Justice Board (2014) *AssetPlus: assessment and planning in the youth justice system*. Llywodraeth y DU. <https://www.gov.uk/government/publications/assetplus-assessment-and-planning-in-the-youth-justice-system/assetplus-assessment-and-planning-in-the-youth-justice-system>

Youth Justice Board (2019) *Standards for Children in the Youth Justice System*.
<https://www.gov.uk/government/publications/national-standards-for-youth-justice-services/standards-for-children-in-the-youth-justice-system-accessible-version-legal-provision>

Youth Justice Board (2021) *Youth justice service governance and leadership*.

Grŵp Adolygu Gwaith Ieunctid yng Nghymru (2018). *Gwaith Ieunctid yng Nghymru: Egwyddorion a dibenion*.



Atodiad A: Diogelu Cymhleth

Mae'r pecyn cymorth wedi mabwysiadu'r enw 'Diogelu Cymhleth Cymru' gan ei fod yn defnyddio'r gwaith a wnaed ym Manceinion Fwyaf i fynd i'r afael a risg a niwed a achosir gan gyfoedion, partneriaid, neu oedolion yn y gymuned ehangach yn hytrach nag yn y teulu (Manchester Safeguarding Partnership).

Diffinnir diogelu cymhleth fel:

"Gweithgaredd troseddol (yn aml wedi'i drefnu), neu ymddygiad sy'n gysylltiedig â throseddoldeb, sy'n cynnwys plant/pobl ifanc fregus, pan fo camfanteisio a/neu pryder diogelu clir neu ymhlyg)
(Manchester Safeguarding Partnership)

Mae diogelu cymhleth yn rhoi sylw i'r risg sy'n digwydd mewn mannau cymunedol ac ar-lein drwy gyfryngau cymdeithasol. Mae dylanwadu diwylliant ieuencid, normau, a chyfoedion arno. O ganlyniad, mae gan rieni lai o ddylanwad neu braidd dim ar bobl ifanc yn eu harddegau a fawr o reolaeth dros yr hyn sy'n digwydd y tu allan i'r cartref. Anaml mai rhieni sy'n cychwyn y camfanteisio troseddol ar eu plant. Eto i gyd, yn aml byddant yn cael eu beio er eu bod hwythau'n ddiodefwrwr eilaidd o effeithiau andwyol y cam-fanteisio troseddol ar blant sy'n digwydd i'w plentyn a'u teulu. Yn aml mae hyn yn cynnwys bygythiadau neu drais gwirioneddol gan eu plentyn a/neu'r camfanteiswyr i'w plentyn neu iddynt eu hunain.

Mae Diogelu Cymhleth yn ategu'r dirwedd canllawiau polisi ac ymarfer yng Nghymru. Mae'r pecyn cymorth hwn yn seiliedig ar yr angen sylfaenol i fabwysiadu ymagwedd sy'n ganolbwyntio ar blant ac ar hawliau plant. Mae'n rhaid gwrandao ar bobl ifanc a'u cynnwys wrth wneud penderfyniadau Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried bod camfanteisio yn cymryd rheolaeth oddi wrth y person ifanc. Mae'n rhaid i ymarferwyr beidio â gwneud yr un fath. Dylent ddiogelu a pheidio â throseddoli'r bobl ifanc hyn a dylent eu helpu a'u cefnogi i gymryd rheolaeth dros eu bywydau ac i gyflawni eu potensial llawn. Mae hyn yn golygu gweithio gyda phobl ifanc, sefydlu trafodaeth gyfeillgar, datblygu ymddiriedaeth a meithrin perthnasoedd y mae pobl ifanc yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu rhannu eu barn ynddynt.

Egwyddorion

Mae Diogelu Cymhleth yn cwmpasu ymagwedd integredig sy'n:

- Seiliedig ar ymagwedd diogelu plentyn yn gyntaf.
- Mae'n canolbwyntio ar y plentyn fel bod anghenion y person ifanc yn cael eu nodi yn cael sylw.
- Mae'n cael ei gyflwyno yn y gymuned i bobl ifanc a'u teuluoedd.
- Wedi'i anelu at atal, ymyrraeth gynnar, a dargyfeirio.
- Gallu cynnwys rhieni fel adnodd yn hytrach na fel risg.
- Yn cynnwys adnabod, unigolion neu grwpiau sy'n camfanteisio ar bobl ifanc, ymchwilio iddynt a'u herlyn.

Yn ogystal â Diogelu Cymhleth, mae Diogelu Trosiannol a Diogelu Cyd-destunol yn ychwanegiadau gwerthfawr i ddiogelu pobl ifanc rhag cael camfanteisio troseddol ar blant. Mae'r ddwy ymagwedd yn ategu Diogelu Cymhleth. Mae'r adrannau canlynol yn darparu crynodeb o'r ddwy ymagwedd.

Diogelu Trosiannol

Mae Diogelu Trosiannol yn ymagwedd ar gyfer diogelu pobl ifanc o'u glasoed nes iddynt ddod yn oedolion. Diffinnir diogelu trosiannol fel:

“an approach to safeguarding adolescents and young adults fluidly across developmental stages which builds on the best available evidence, learns from both children’s and adult safeguarding practice and which prepares young people for their adult lives”

(Holmes and Smale, 2018:3)

Mae'n cydnabod nad yw glasoed yn gyfnod diffiniedig; mae taith plentyn i fod yn oedolyn yn broses yn hytrach na digwyddiad. Mae hyn yn seiliedig ar y dystiolaeth fod ymennydd pobl ifanc yn parhau i aeddfedu yn feddyliol ac yn emosiynol i mewn i'w hugeiniau. Yn ôl Diogelu Trosiannol, dylid teilwra cefnogaeth i anghenion pobl ifanc yn hytrach nag i'w hoedran. Mae'n mynd ymhellach na throsglwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion. Mae'n cynnwys ymarferwyr o wasanaethau plant ac oedolion yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi pobl ifanc gyda'u hamgylchiadau a'u profiadau unigol. Yn gyson â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, nod Diogelu Trosiannol yw meithrin ymagwedd fwy cydgysylltiedig rhwng diogelu plant a phobl ifanc ac oedolion. Mae'n hyrwyddo ymagwedd sy'n seiliedig ar hawliau fel y bydd pobl ifanc yn cael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau ac yn unol â Deddf Gofal 2014, mae ymarferwyr yn ystyried amgylchiadau unigol ac nid eu hoedran, eu hymddygiad neu eu diagnosis yn unig. Mae diogelu trosiannol yn cydnabod bod gwaith cymdeithasol oedolion yn canolbwyntio ar bobl y mae'n bosibl ei fod yn anodd iddynt eu hamddiffyn eu hunain rhag niwed oherwydd eu hanghenion gofal a chefnogaeth. Mae'n berthnasol i camfanteisio troseddol ar blant oherwydd bod pobl ifanc wedi bod yn destun camfanteisio troseddol ers iddynt fod yn ifanc, ac mae'n bosibl na fydd y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol nad ydynt yn cael eu diwallu yn gallu eu hamddiffyn eu hunain neu eu bod yn gyndyn i dderbyn cefnogaeth a chymorth.

Diogelu Cyd-destunol

Mae Diogelu Cyd-destunol yn darparu fframwaith ar gyfer gweithio gyda risg a niwed y tu hwnt i'r teulu. Mae'n canolbwyntio ar y bobl a'r lleoedd yn y gymuned lle mae risg yn digwydd. Mae'n cydnabod mai cyfyngedig yw dylanwad rhieni ar ffrindiau eu plant ac ar y manau y mae eu plentyn yn treulio ei amser rhydd ynddynt.

Mae Diogelu Cyd-destunol yn darparu fframwaith ar gyfer rhoi sylw i newid y tu hwnt i'r teulu ac mae'r fframwaith wedi'i deilwra i'r cyd-destun lleol. Yn rhan o'r teilwra hwn y mae asesiadau cyfannol sy'n mynd y tu hwnt i gamfanteisio troseddol ar blant i ddarganfod yr anghenion hynny sydd gan y person ifanc nad ydynt yn cael eu diwallu. Dylai'r asesiadau hyn benderfynu pa gyd-destunau a pherthnasoedd sy'n berygl i'r person ifanc ac arwain datblygu cynlluniau diogelu. Mae Diogelu Cyd-destunol yn cynnwys adnabod y ffactorau amddiffynnol er mwyn eu cryfhau a'u defnyddio i atgyfnerthu gwydnwch y person ifanc. At hyn, mae Diogelu Cyd-destunol yn arwain

cynllunio diogelwch trwy rannu cyd-destunau gwybodaeth gyda'r heddlu a thimau diogelwch cymunedol er mwyn galluogi defnyddio technegau tarfu. Felly, mae Diogelu Cyd-destunol yn datblygu partneriaethau gydag asiantaethau sy'n gallu gwella diogelu ac amddiffyn plentyn rhag risg y tu hwnt i risgiau'r cartref, er enghraifft darparwyr hamdden, mannau cyhoeddus agored a busnesau.

Atodiad B: Yr iaith a ddefnyddir

Pa angen ystyried yn ofalus pa fath o iaith sy'n cael ei defnyddio (Ffigur 10). Mae camfanteisio troseddol ar blant yn digwydd hyd yn oed pan fo'r gweithgaredd yn ymddangos yn gydsyniol wrth i gamfanteiswyr gymryd mantais ar fregusrwyddau, tloedi, diffyg cyfalaf cymdeithasol a/neu ofn pobl ifanc. Felly, mae'n rhaid i ymarferwyr beidio â defnyddio iaith neu dermau sy'n rhoi bai yn benodol ar bobl ifanc neu sy'n awgrymu eu bod ar fai (Ffigur 10). Mae'n rhaid iddynt sicrhau eu bod yn defnyddio iaith gynhwysol sy'n seiliedig ar gryfderau. Wrth siarad â phobl ifanc a rhieni, mae angen gofal ychwanegol oherwydd gallent fod yn anghyfarwydd â thermau sy'n gyffredin ymhlith ymarferwyr, megis 'camfanteisio troseddol ar blant', 'llinellau sirol' neu 'wedi'i fasnachu'. Gall hyn beri dryswch. Gall hefyd fod yn niweidiol i bobl ifanc y mae'n bosibl nad ydynt yn sylweddoli bod rhywun yn 'camfanteisio' arnynt neu nad ydynt yn barod i dderbyn hynny. At hynny, mae'n bosibl y bydd pobl ifanc yn ymwrthod â'r syniad o fod yn ddiodefwr. Mae'n bosibl y byddant yn canfod bod eu gweithredoedd yn rhai entrepreneuriaidd ac/neu yn ganlyniad i beidio â chael llawer o gyfleoedd dilys i ennill arian drostynt eu hunain a/neu eu teuluoedd. Ar ben hynny, mae'n bosibl y bydd pobl ifanc mor isel yn yr hierarchaeth, mae'n bosibl na fyddant yn sylweddoli nad ydynt yn rhan o grŵp trosedd cyfundrefnol. Felly, dylai ymarferwyr ddefnyddio iaith y mae pobl ifanc yn teimlo'n gyfforddus wrth ei defnyddio.

Ffigur 10: Beio diodefwr yntau iaith sy'n seiliedig ar gryfderau



Termau cyffredin

Mae'r termau sy'n gysylltiedig â chamfanteisio'n droseddol ar blant yn amrywio yn ôl rhanbarth. Gan fod llawer o'r termau hyn wedi dod yn rhan o iaith lafar pobl ifanc, ni fydd pob person ifanc sy'n defnyddio'r termau hyn yn destun i gamfanteisio troseddol. Fodd bynnag, dylai ymarferwyr ddeall y termau allweddol (Tabl 1).

Tabl 1: Termau cyffredin yn ymwneud â chamfanteisio troseddol ar blant

Llinell wedi'i brandio	Llinell ffôn symudol sy'n cael ei defnyddio i gymryd archebion gan gwsmeriaid. Mae'n cael ei reoli gan bobl ifanc hŷn sy'n fwy uchel yn y gadwyn delio cyffuriau. Gellir rhoi enw person ifanc neu le i linellau brand, e.e., 'llinell y Barri'
Crwyn glân	Pobl ifanc nad yw'r heddlu na'r gwasanaethau plant yn eu hadnabod. Mae'r bobl ifanc hyn yn cael eu targedu gan gamfanteiswyr gan eu bod yn llai tebygol y bydd rhywun yn amau eu bod yn destun i gamfanteisio troseddol.
Cogio	Y broses lle y defnyddir pobl ifanc i gymryd tai drosodd, ceir y tai hyn o oedolion bregus, gan gynnwys pobl sy'n gaeth i gyffuriau
Caethiwed dyled	Mae pobl yn eu rhwydwaith eu hunain yn lladrata oddi ar bobl ifanc er mwyn iddynt fynd i ddyled a bod yn agored i gamfanteisio arnynt ac mae'n rhaid iddynt ad-dalu'r ddyled. Bydd camfanteiswyr yn gosod cyfraddau uchel er mwyn maglu pobl ifanc.
Rhai hŷn (Elders)	Pobl ifanc sydd un cam yn uwch na rhedwyr stryd. Mae rhai hŷn yn cynhyrchu gwerthiannau ac yn adeiladu sylfaen cwsmeriaid weithredol. Maent yn camfanteisio'n droseddol ar bobl ifanc eraill.
Bwyd	Mae camfanteiswyr yn cyfeirio at eu cyffuriau fel 'bwyd' i leihau goblygiadau eu gweithgareddau. Mae hyn yn golygu bod pobl ifanc yn credu eu bod yn 'bwydo' pobl fregus sy'n gaeth i gyffuriau ac yn eu helpu.
Mynd i'r cefn gwlad (Going country)	Pan fydd rhywun yn meithrin perthynas amhriodol gyda phobl ifanc ac yn eu recriwtio mewn dinasoedd ac ardaloedd trefol mwy, ac mae'n bosibl y byddant yn cael eu masnachu i mewn i ardaloedd gwledig neu arfordirol.
OT	Ystyr 'Out trapping' neu 'out of town' yw bod i ffwrdd (yn cael eu masnachu) yn gwerthu cyffuriau mewn ardaloedd ardal drefol neu wledig.
Plygio	Cuddio cyffuriau'n fewnol o fewn y llwybr gastroberfeddaidd, y wain neu'r bochau. Mae'n bosibl y bydd pobl ifanc yn cael eu dal i lawr wrth i'r cyffuriau gael eu cuddio yn eu corff neu wrth iddynt gael eu tynnu allan.
Dyn ffordd (Road man)	Gwerthwr cyffuriau
Rhedwyr	Pobl ifanc ar waelod hierarchaeth gwerthu cyffuriau Camfanteisir yn droseddol ar bobl ifanc i gludo a gwerthu cyffuriau.
Shank	Cyllell
Strapio neu on tick	Pan fo pobl ifanc yn cael cyffuriau am ddim.
Trethu	Lle y caiff trais ei ddefnyddio fel dull rheoli. Gall pobl ifanc sydd wedi 'gwneud cam' gael eu marcio neu eu hanafu fel gwers i eraill.

Tŷ maglu neu 'bando'	Dyma adeilad sy'n cael ei ddefnyddio fel man i werthu cyffuriau. Yn aml defnyddwyr cyffuriau sydd yno yr adeiladau hyn.
Maglu (Trapping)	Mae hyn yn cyfeirio at werthu cyffuriau ar y stryd



CASCADE

Diolchiadau

Mae'r tîm ymchwil yn arbennig o ddiolchgar i'r Grŵp Cyngori ar Ymchwil a roddodd gymorth a chefnogaeth drwy gydol y gwaith ymchwil a datblygu'r pecyn cymorth. Roedd y grŵp yn cynnwys pobl ifanc, rhieni a gweithwyr proffesiynol.

Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol i Blant (CASCADE),
Prifysgol Caerdydd, Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol (SOCSI), Prifysgol
Caerdydd

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

CASCADE: Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol i Blant

Baro Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd